

# Public Document Pack

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.  
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Annwyl Cyngorydd,

### **PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3**

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 3 Hybrid yn Siambraethau'r Cyngor - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB ar **Dydd Llun, 19 Mehefin 2023 am 16:00**.

### **AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**  
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. **Datganiadau o fuddiant**  
Derbyn datganiadau o fuddiant personol a rhagfarnus (os oes rhai) gan Aelodau/Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008 (gan gynnwys datganiadau chwipio)
3. **Cymeradwyaeth Cofnodion** 3 - 42  
Derbyn cofnodion y cyfarfod o'r canlynol i'w cymeradwyo:  
26 09 2022  
14 11 2022  
12 12 2022  
04 01 2023 a;  
23 01 2023
4. **Ariannu Ffyniant a Rennir** 43 - 52

Gwahoddwyr:

Cynghorydd John Spanswick - Aelod Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd - y Cynghorydd  
Cynghorydd Neelo Farr – Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Lles  
Cynghorydd Rhys Goode – Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio

Janine Nightingale - Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau  
Zak Shell - Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol  
Ieuan Sherwood - Rheolwr y Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd

- |    |  |         |
|----|--|---------|
| 5. | <u>Casgliadau ac Argymhellion</u>  |         |
| 6. | <u>Adroddiad Enwebu Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol</u>  | 53 - 56 |
| 7. | <u>Diweddarriad Rhaglen Gwaith</u>   | 57 - 82 |
| 8. | <u>Materion Brys</u><br>Ystyried unrhyw eitem(au) o fusnes y mae hysbysiad wedi'i roi ynddynt<br>yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor ac y mae'r sawl sy'n<br>llwyddu'r cyfarfod o'r farm y dylai, oherwydd amgylchiadau arbennig, gael ei drafod yn y<br>cyfarfod fel mater o frys. |         |

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynchy trwy Siambrau y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet\_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant

**K Watson**

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

Cynghorwyr

S J Bletsoe  
N Clarke  
C Davies  
P Davies

Cynghorwyr

M J Evans  
P W Jenkins  
MJ Kearns  
W J Kendall

Cynghorwyr

J E Pratt  
G Walter  
I Williams  
MJ Williams

# Agenda Item 3

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 26 MEDI 2022**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR  
Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31  
4WB DYDD LLUN, 26 MEDI 2022, AM 16:00**

## Presennol

Y Cyngorydd P Davies – Cadeirydd

S J Bletsoe  
W J Kendall  
MJ Williams

N Clarke  
J E Pratt

C Davies  
G Walter

P W Jenkins  
I Williams

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M J Evans a/ac MJ Kearn

## Swyddogion:

Lucy Beard	Swyddog Craffu
Richard Hughes	Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Awen
Lisa Jones	Arweinydd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ac Arian Adfywio
Rachel Keepins	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Jonathan Parsons	Rheolwr Grŵp Datblygu
Ieuan Sherwood	Rheolwr Grwp Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd
Delyth Webb	Rheolwr Grwp Adfywio Strategol

## 7. DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cyngorydd Norah Clarke – Datgan buddiant rhagfarnus gan ei bod wedi bod yn wirfoddolwr gyda'r Elusen Credu.

Y Cyngorydd Colin Davies – Datgan buddiant personol gan ei fod ynghlwm wrth gynnig SPF yn y Fro.

Y Cyngorydd Ian Williams – Datgan buddiant personol fel Cyngorydd Tref Pen-y-bont ar Ogwr, rhag i adnewyddu a chyllid y dref gael eu trafod.

## 8. CYMERADWYO COFNODION

Nododd y Cyngorydd Norah Clarke wrth drafod pwynt 5b yng nghofnodion y cyfarfod a gynhalwyd 18 Gorffennaf 2022, fod PRIF yn golygu Porthcawl Resort Investment Focus, nid Forecast.

## PENDERFYNWYR:

Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 dyddiedig 16 Chwefror 2022 ac 18 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir a gwirioneddol.

## 9. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DEYRNAS UNEDIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr adroddiad ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) sef yr hyn yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i roi ar waith i ddisodli Cronfa Fuddsoddi Strwythurol Ewrop (ESIF), yn dilyn y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (EU) ar 31 Ionawr 2020. Nododd bod dyraniad Pen-y-bont hyd yma yn £23 miliwn a oedd yn rhaid ei wario dros dair blynedd, ac roedd oddeutu hanner yr hyn yr oeddent wedi arfer ei gael gan yr EU. Felly, roedd creu'r cynllun buddsoddi wedi bod yn heriol. Roedd hi'n bwysig i'r Pwyllgor ddeall ei fod ar gyfer mentrau ledled y Sir,

roeddent wedi gweithio gyda'r trydydd sector a'r colegau er mwyn creu'r cynllun. Dylent fod â phenderfyniad ar y cynllun buddsoddi erbyn canol mis Hydref.

Nododd Rheolwr Grŵp yr Economi, Cyfoeth Naturiol a Chynaliadwyedd mai pwrrpas yr adroddiad oedd rhoi diweddarriad ar waith Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a throsolwg yn Atodiad Un o'r cynigion a allai gael eu cyflwyno. Dywedodd bod adnodd penodol ochr yn ochr â'r flaenoriaeth Pobl mewn Sgiliau yn benodol ar gyfer ymyrraeth ledled y DU o'r enw Multiply. Nod Multiply oedd gwella sgiliau rhifedd oedolion yn y rhanbarth.

Eglurodd bod awdurdodau lleol wedi'u gwahodd i gydweithio a chreu un cynllun buddsoddi lleol ar gyfer y rhanbarth. Yn rhan o hyn, cytunwyd y byddai Rhondda Cynon Taf yn cymryd rôl awdurdod lleol arweiniol ar gyfer y rhanbarth. Golyga hyn y byddai gan Lywodraeth y DU un cytundeb cyllid yn uniongyrchol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac y byddai ganddyn nhw gytundebau wedyn gyda phob awdurdod yn y rhanbarth. Roedd peth hyblygrwydd o ran sut y byddai'n cael ei gyflawni mewn Canllawiau gan Lywodraeth y DU, gydag opsiynau ar gyfer cyllid grant at ddibenion caffael, comisiynu a darpariaeth fewnol.

Nododd er nad oedden nhw fel Awdurdod angen datblygu cynllun buddsoddi, roedd hi'n bwysig datblygu'r wybodaeth yn Atodiad Un a oedd yn nodi'r blaenoriaethau a'r lleoedd gorau i ddyrannu arian y gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd yn awyddus i bwysleisio bod y cynigion wedi'u datblygu heb ganllawiau manwl am y gronfa gan Lywodraeth y DU, ac yn hynny o beth, gallai newid yn enwedig gan fod rhai o'r gweithgareddau arfaethedig, modelau cyflawni a gwerthoedd cyllid yn debygol o amrywio. O ran cyflawni, roedd y Cabinet wedi cytuno ar strwythur llywodraethu â dwy haen, partneriaeth economaidd a fyddai'n denu partneriaid aml-sector o bob rhan o'r Sir, y rhanbarth a Chymru, a bwrdd rhaglen economaidd mewnol. Eglurodd er bod ganddynt ddyraniad cyffredinol o £23 miliwn, roedd £3.99M o hwnnw wedi'i ddyrannu i'r Raglen Multiply, a oedd yn gadael £19.1 miliwn ar gyfer yr hyn a oedd y cael ei ystyried yn weithgarwch cronfa ffyniant gyffredin craidd dan dair thema. Roedd Llywodraeth y DU yn awgrymu y gellid rhannu'r cyllid i ddyraniadau blynnyddol sefydlog a oedd cyfwerth ag oddeutu 12% yn y flwyddyn gyntaf, 24% yn yr ail flwyddyn, a 64% yn y drydedd flwyddyn. Doedd dim gwybodaeth o ran a oedd modd cario cyllid drosodd, neu a oeddent am weld dyraniadau aml-flynnyddol. Roedd hyn yn rhywbeth roeddent yn frwd yn lobio ar ei gyfer, yn ogystal ag archwilio mechanweithiau gydag awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth a Llywodraeth y DU o ran sut gellid datblygu peth hyblygrwydd o'i gwmpas.

Nododd y gellid defnyddio 4% o'r dyraniadau at ddibenion gweinyddol. Roedd y proffil presennol a oedd wedi'i nodi yn cynnwys y 4% hwnnw gan Multiply, a dyraniad gan Gronfa Ffyniant a Rennir Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cyflawni prosiectau cydweithwyr ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd, gan olygu bod oddeutu £2.5 miliwn dros y proffil. Ym mis Medi, roedd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi cyflwyno pwysau twf yn rhan o broses MTFS 2023-2027 i geisio bodloni'r diffyg mewn cyllid i sicrhau y gellid cyflawni'r holl weithgareddau. Pe byddai'r rhaglen yn parhau i fod wedi'i or-ddyrannu, yr arweinwyr perthnasol ym mhob Adran fyddai'n gyfrifol am nodi'r bylchau hynny. Os na fyddai hyn yn bosibl, dim ond y cyllid a ddyrennir fyddai'r cyllid ar gael, oherwydd doedd dim modd mynd y tu hwnt i'r cyllidebau a oedd ar gael. Crynhodd trwy ddweud mai Argymhelliaid yr adroddiad oedd i'r Pwyllgor nodi'r cynnwys ochr yn ochr ag Atodiad Un.

Gofynnwyd pam fod y dyraniad o £330k i Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd (CCRD) wedi'i gytuno, beth fyddai Pen-y-bont yn ei dderbyn o'r cyllid hwn a pham nad oedd modd ei ariannu o gyfraniadau yr oedd yr Awdurdod a'r naw Awdurdod partner arall eisoes wedi'u rhoi.

Gan gyfeirio at yr Atodiad, nododd Aelodau er ei fod yn llawn bwriadau da, doedd fawr ddim manylion e.e. doedd hi ddim yn glir beth oedd y farchnad werdd neu sero net a

drafodwyd yn ei chynnwys. Yn olaf, o ran y llywodraethu dwy haen, gofynnodd Aelodau pam nad oedd unrhyw sôn am Gynghorau Tref a Chymuned. Gofynnwyd beth fyddai eu rôl nhw o ran llywodraethu a'u gallu i helpu i gyflawni.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Rheolwr Grŵp, Economi, Cyfoeth Naturiol a Chynaliadwyedd bod elfen fach o £330k yn mynd i CCR gan fod elfen ranbarthol ar y Cais Ffyniant Gyffredin, ac roedd cydnabyddiaeth er bod y gronfa'n ymwneud ag anghenion lleol a chyflawni, roedd rhai pethau a oedd yn gallu cael eu cyflawni'n well yn rhanbarthol ac ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol. Byddai CCR yn edrych ar gau rhai bylchau, drwy ddod â'r cyllid at ei gilydd a chael Rhaglen Ranbarthol effeithiol. Doedd dim modd cynnwys manylion pob cynllun unigol yn yr adroddiad, a chrynodebau gweithredol oedd yr atodiadau, er bod achosion manwl y tu ôl i bob un. Y bwriad oedd cyflwyno i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, gan ofyn i Aelodau'r Fforwm sut rodden nhw'n meddwl y byddai ymgysylltiad eu sefydliad yn gweddu orau i gyflawniad y rhaglen.

Cyfeiriodd Aelodau at y brig-doriad (top slice) gan nodi ei fod yn swm cyfatebol o arian os oedd wedi'i luosi â 10 i gyflawni'r fargen, ac ym mharagraff 8.2, Tabl 1, roedd canran y dyraniad yn nodi dyraniad rhanbarthol o 8.3%, ond roedd cyfraniad yr Awdurdod at Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn 9.4166%. Gofynnwyd am y gwahaniaeth o 1%? Gofynnwyd hefyd pam roedd canran dyraniad Pen-y-bont yn 8.3% o'r dyraniad rhanbarthol, er bod yr Awdurdod Gweinyddol yn derbyn 16.2%.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Gynllun Llywodraeth y DU a bod Bargen Ddinesig CCR a'u cyfraniad yn bethau hollol wahanol ac amherthnasol i hyn. Llywodraeth y DU oedd wedi gosod y dyraniad.

Gofynnodd Aelodau am ragor o fanylion ynghylch cymorth digwyddiadau Twristiaeth yn y Sir a gwaith rheoli cyrchfan a marchnata lleol o ran Pen-y-bont ar Ogwr.

Nododd Swyddogion y byddai'r gronfa ddigwyddiadau yn adnodd i gefnogi trefnwyr digwyddiadau ac i wella a datblygu digwyddiadau newydd o fewn y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â gwella gweithgareddau presennol i ddenu rhai newydd. Eglurwyd bod yr ochr rheoli cyrchfan yn gweithio yn rhan o'r elfen farchnata, cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo'r cyrchfan yn ogystal â chyfleoedd i weithio ledled y busnesau wahanol i ddatblygu cynyrrch a phecynnau newydd. Byddai Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn bo hir er mwyn iddynt ei ystyried.

Gofynnodd Aelodau ar ba sail oedd yr Awdurdod yn cael 8.3% o'r dyraniad rhanbarthol, pwy oedd gwneud y penderfyniad hwnnw a phwy gyflwynodd yr achos. Nodwyd y byddai 8.3% yn dro gwael gan Lywodraeth y DU os mai 9.4% oedd canran Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd.

Eglurodd swyddogion y metrigau a ddefnyddiodd Llywodraeth y DU wrth bennu'r dyraniad: roedd 40% o'r penderfyniad ar sail 'per capita'; defnyddiwyd 30% i ddefnyddio'r un mynegai ar sail anghenion a ddefnyddiwyd ar gyfer y Gronfa Adnewyddu Cymunedol, a; cafodd 30% ei ddyrannu'n defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i greu cyfanswm y dyraniad a nodwyd.

Gan droi at dudalen 26 yn yr adroddiad, gofynnodd yr Aelodau beth yn union roedd y gronfa yn ei roi i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, oherwydd roedd wedi'i nodi bod angen gwella.

Nododd y Rheolwr Grŵp, Economi, Cyfoeth Naturiol a Chynaliadwyedd nad oedd manylion fesul Ward am yr arian am ddau reswm: roedd yn bennaf yn gronfa ar sail refeniw, a, chynilo ar gyfer y cynigion cyfalaf, y byddai pob un yn digwydd ledled Tîm y

sir yn gyffredinol. Er y byddai manylion o ran faint o fusnesau o'r Canol Tref a oedd wedi gwneud cais am y gronfa ar gael, ar y pwynt hwnnw, nid oedd wedi'i ddyrannu.

Gofynnodd Aelodau am eglurder ar sail a llinach sut roedd pethau'n mynd drwy Awdurdod Rhondda Cynon Taf fel yr Awdurdod Arweiniol, o'r pwynt cyflwyno'r cais, pwy sy'n gwneud y cais a'r rôl yr Awdurdod gweinyddu.

Nododd Swyddogion bod cytundeb cyfreithiol drafft gan Rhondda Cynon Taf wedi dod i law a oedd yn nodi sut y byddai'r hawliadau a'r prosesau adrodd yn gweithio, a phwy fyddai'n atebol. Eglurwyd bod penderfyniadau ar y dyraniad a'r rhaniadau ledled y rhanbarth yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn gyntaf, ac yna o fewn y rhanbarth, a bod yr awdurdodau lleol eu hunain yn cytuno pwy ddylai fod yn Awdurdod Arweiniol.

Gofynnodd Aelodau pa mor hyderus oedden nhw'n gallu bod y gallent gyflawni £23 miliwn mewn dwy a hanner i dair blynedd gyda rhaglen mor amrywiol.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai'n heriol iawn gan y byddai'r £23M yn cael ei rannu i flynyddoedd 1, 2 a 3, ac ni fyddai penderfyniad yn cael ei wneud tan fis Hydref. Byddai angen gwario'r canran gofynnol erbyn mis Ebill nesaf. Er nad oedd ganddynt yr adnoddau yn y Gyfarwyddiaeth, roedd opsiynau'n cael eu harchwilio o ran symud Swyddogion o weithgareddau eraill i hyn, i sicrhau'r defnydd gorau posibl o bob adnodd. Lle bo parhad o ran refeniw, roedd hyder, ond gyda refeniw a chyfalaf newydd byddai heriau. Fodd bynnag, roedd Swyddogion wedi ymrwymo i sicrhau y byddai'n gweithio a byddai symud o ddyraniad blynyddol sefydlog i ddyraniad aml-flynyddol yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

1. Dylid mynegi pryder ynghylch y risgiau ynghlwm wrth gyllid annigonol i gyflawni'r prosiect a chyflawni cynigion y prosiect o fewn y cyfnod a nodwyd.
2. Dylid mynegi pryder pellach o ran y diffyg adnoddau ac arbenigedd yn y Gyfarwyddiaeth, a'i gallu i ymdopi â'r gwaith ychwanegol ynghlwm wrth y prosiect. Nid oedd Aelodau o'r farn ei bod hi'n briodol symud staff o rolau a phrosiectau eraill, gan y byddai hyn yn wrthgynhyrchiol. Nododd y Pwyllgor hefyd bod y dirwedd o ran Awdurdodau Lleol yn gwneud ceisiadau am gyllid yn newid, gyda therfynau amser yn fyr iawn a'r meini prawf yn cael eu cyflwyno'n hwyr yn y broses, sy'n golygu bod gan yr Awdurdod fawr ddim amser i ddatblygu a chreu cheisiadau sylweddol. Felly argymhellodd y Pwyllgor bod angen blaenoriaethu adnoddau yn y gyfarwyddiaeth Cymunedau i sicrhau nid yn unig ei fod yn gallu bwrw ymlaen â'r prosiect hwn yn llwyddiannus, ond i sicrhau bod seilwaith ar waith i alluogi'r Awdurdod i wneud cais a manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd cyllid. Yn ogystal â datblygu cynllun strategol, argymhellodd yr Aelodau y dylid drafftio prosiectau posibl o dan hyn. Felly, pan mae'r cyfle'n dod i'r amlwg, byddai ganddynt sail am y cais eisoes.
3. Dylid mynegi pryderon difrifol ynghylch elw gwael Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn eu dyraniad o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) a'r annhegwch o ran y dull cyllido y tu ôl i hyn. Felly, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu'n uniongyrchol i'r rhai yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am SPF i nodi materion gan gynnwys:
  - a. Y ffait nad yw'r dyraniad yn ystyried bod Pen-y-bont yn un o'r ardaloedd sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru;
  - b. Mae'r cyfnod prin o amser a gafodd yr Awdurdod i greu cynigion a defnyddio'r gronfa a bodloni ei anghenion yn afresymol, ac o bosibl yn rhoi'r prosiect a chyllid y cyhoedd mewn perygl.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r llythyr hwn gael ei anfon at y ddau AS lleol; Dr Jamie Wallis a Chris Elmore.

Gofynnodd y Pwyllgor:

1. I gael gweld copi o unrhyw gyflwyniad i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar gynigion Cynllun Buddsoddi Lleol Pen-y-bont ar Ogwr.
2. Am ragor o wybodaeth ar sut caiff hawliadau eu prosesu gan RCT fel yr Awdurdod Arweiniol yn ogystal â manylion ar y broses adrodd ac atebolrwydd.
3. Rhagor o fanylion ar y cynigion prosiect pan fyddant ar gael, gan gynnwys manylion am gyllid o fewn pob cynnig.
4. Eglurder o ran a fyddai modd cadw peth o'r cyllid pe na byddai'r allbynnau fel y'i nodwyd yn y cynigion yn cael eu cyflawni.

**10. PROSIECTAU BLAENORIAETH Y GRONFA FFYNIANT BRO**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr adroddiad gan egluro mai ail hanner Agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU oedd y gronfa, a oedd wedi'i gyhoeddi yn adolygiad gwariant Llywodraeth y DU yn 2020. Roedd yn rhaglen o waith cyfalaf yn bennaf, gydag ychydig o refeniw hyd at 2025, gyda dyraniad o £4 miliwn ledled y DU, a £800 miliwn ar gyfer Cymru. Nododd y gallai pob awdurdod lleol gyflwyno cais am hyd at £20 miliwn ar gyfer pob etholaeth AS - roedd dau ym Mhen-y-bont; Pen-y-bont ac Ogwr. Yn ail, gellid cyflwyno cais trafnidiaeth fawr am hyd at £50 miliwn. Roedd yn gronfa gyfalaf gyda meini prawf penodol iawn, megis cefnogi asedau diwylliannol, adfywio canol trefi a threfi a chymunedau, a thrafnidiaeth. Nododd bod rhaid darparu 10% arian cyfatebol ar gyfer pob cais, felly byddai angen sicrhau cyllid gan naill ai trydydd parti, cyllid y Loteri Genedlaethol neu'r Cyngor ei hun. Roedd dau fid wedi'u cyflwyno; un er mwyn adnewyddu'r Pafiliwn ym Mhorthcawl, ac un ar gyfer Pont Ffordd Penprysg ym Mhencoed i waredu'r groesfan a gosod pont ffordd a llwybr cerdded newydd.

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp, Economi, Cyfoeth Naturiol a Chynaliadwyedd drosolwg o'r adroddiad, ac ar ôl hynny, trafodwyd y canlynol:

Gofynnodd Aelodau a fyddai £20M yn ddigon ar gyfer y prosiect adnewyddu'r Pafiliwn, o ystyried prisiau cynyddol. Os na, o ble byddai angen i'r arian ychwanegol ddod, ac a oedd Cadw'n awyddus ac yn derbyn yr addasiadau arfaethedig i'r cynllun.

Nododd Swyddogion bod problemau annisgwyl yn gallu dod i'r amlwg wrth ddechrau gwneud gwaith ar hen adeiladau, fodd bynnag, roedd gwersi wedi'u dysgu o gynlluniau blaenorol ac roedd wedi'i gydnabod bod llawer o gynlluniau wrth gefn o ran y cynllun hwn, a llawer o fesurau i wneud yn iawn am risgau pe byddai'r rheiny'n dod i'r amlwg. Pe byddai unrhyw amgylchiadau annisgwyl neu gostau cynyddol, byddai angen ail-edrych ar y dyluniad a pheirianneg eto, gan nad oedd cyllid ychwanegol i wario ar yr adeilad. Drwy beirianeg o werth, byddent yn edrych ar yr adeilad a pha waith all gael ei wneud tuag at ddiweddu y cynllun pe byddai rhagor o arian yn dod ar gael. Nododd y Rheolwr Grŵp Adfywio Strategol bod Cadw yn ymwybodol o'r adeilad, a'u bod yn derbyn y newidiadau yn yr un modd â Thîm Cadwraeth a Dylunio yr Awdurdod ei hun.

Nododd yr Aelodau bryder y gallai'r Pafiliwn fod ar gau am hyd at ddwy flynedd pe byddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen. Gofynnwyd am opsiynau o ran sicrhau bod rhai digwyddiadau'n gallu cael eu cynnal ym Mhorthcawl.

Atebodd y Swyddogion drwy ddweud y byddai hynny'n amodol ar yswiriant risg ac atebolrwydd y contractwr ar ôl dechrau ar y gwaith adeiladu, felly er ei fod wedi'i ystyried, ni fyddai'n bosibl caniatáu defnydd o'r adeilad bryd hynny. Fodd bynnag,

byddant yn gweithio gydag Awen sy'n gweithredu'r cyfleuster o ran sicrhau lleoliadau eraill.

Eglurodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen mai'r flaenoriaeth fyddai'r defnyddwyr lleol bob tro, ac y byddant yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Cyngor i geisio gweld beth maen nhw'n ei wneud, gyda chyfuniad posibl o weithio ag ysgolion a sefydliadau eraill i weld beth all gael ei roi ar waith i gefnogi a sicrhau bod y celfyddybau'n parhau ar lefel gymunedol hefyd.

Gofynnodd Aelodau o ran cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y Pafiliwn, a oedd unrhyw bosibilrwydd o gynnal gwneud dichonoldeb yngylch adeilad arall rhywle ym Mhorthcawl, e.e. cae chwarae Rest Bay neu rentu gae neu ddefnyddio maes parcio, yn dibynnu ar beth fyddai ei bwrvpas o ran adfywio. Roedd diddordeb mewn gweld unrhyw adroddiad neu ddeilliannau, os oedd y trafodaethau hynny wedi'u cynnal, gan fod Aelodau o'r farn y gellid creu incwm tra bod y prosiect Pafiliwn yn mynd rhagddo. Awgrymwyd hefyd y dylid archwilio i ddulliau eraill, megis agwedd budd cymunedol y contract caffael a Chytundeb Adran 106.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a'r Aelod Cabinet dros Adfywio bod trafodaethau wedi bod ar waith yngylch archwilio lleoliadau ond yn anffodus, doedd dim modd defnyddio arian o'r gronfa Ffyniant Bro ar gyfer gwaith dichonoldeb ar y cam hwn, gan fod angen gwario'r cyllid i gyd ar y prosiect ac roedd proffil gwariant wedi'i gyflwyno.

Gofynnodd Aelodau a fyddai'r nifer o seddi a ragwelwyd yn cynyddu unwaith i'r prosiect Pafiliwn ddod i ben, ac a fu unrhyw ystyriaeth i ddarparu cyfleusterau parcio ychwanegol ar y safle neu ger y safle. Os na, gallai hynny fod yn rhywbeth i'w ystyried a'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau nad oedd unrhyw gynlluniau ar y gweill i gynyddu nifer y lleoedd parcio ar y safle, ond nid oedd yn credu eu bod yn gwaredu'r cyfleusterau parcio presennol ar y safle. Eglurodd eu bod wedi comisiynu astudiaeth parcio ar gyfer Porthcawl a oedd yn rhan bwysig o'r adfywio.

Gofynnodd Aelodau am eglurder ar yr un cais fesul ardal AS, a phryd y byddai'r cylch cyllid nesaf. Roeddent hefyd yn ymwybodol bod Neuadd Tref Maesteg wedi profi rhai cymhlethdodau a oedd yn golygu cynnydd i gostau a therfynau amser, felly roeddent am wybod a fyddai cyfnod o amser pan fyddai'r ddau ddim ar gael, neu'n dibynnu ar y cais yn llwyddo, a fyddai'r Pafiliwn Grand yn aros ar agor nes i Neuadd Dref Maesteg ail-agor.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod angen i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2025, felly roedd yn tybio y byddai'r cylch nesaf yn dechrau bryd hynny, ond y byddai ar agor mae'n siŵr yn yr ychydig o flynyddoedd nesaf er mwyn gallu prosesu ymlaen llaw. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen y byddai Neuadd Dref Maesteg yn agor cyn i'r Pafiliwn gau, oherwydd pe bydden nhw'n llwyddiannus, byddai angen cadarnhau'r dyluniadau, cyflwyno dyluniadau i gael caniatâd cynllunio, mynd allan i dendr, dewis contractwr ac aros iddynt gyrraedd y safle.

Amlinelloedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a'r Rheolwr Grŵp ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu'r cynnig ar gyfer Pont Ffordd Penprysg, gan egluro eu bod wedi gwneud cais am o leiaf £25 miliwn i'r Gronfa Ffyniant Bro i osod y bont. Cafwyd dyluniadau cychwynnol ar gyfer y bont, ac roeddent wedi dechrau mynd drwy'r broses Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn ogystal ag ymgynghori cyhoeddus. Roedd yn gynllun cymhleth gan y byddant yn disodli hen seilwaith o oes

Fictoria, gosod pont fodern a gwaredu'r bont bresennol ym mhen yr orsaf drenau o Bencoed, a disodli hwnnw gyda phont hygyrch, teithio llesol ac addas i gerddwyr.

Mynegodd yr Aelodau bryder o ran a fyddai £25 miliwn yn ddigon ar gyfer y prosiect, a fyddai wedi dod i ben erbyn 2025 a'r ffaith nad oedd opsiwn i gamu'n ôl oherwydd natur y prosiect. Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw ffynonellau cyllid eraill a all gael eu harchwilio.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddent yn caniatáu i fid trafenidiaeth fynd ymlaen i 2026 mewn amgylchiadau eithriadol. Nododd y gallai'r holl gostau fod yn fwy na'r uchafswm cais, ond nad oedd ganddynt ddyluniad llawn wedi'i gostio, ac roedd agweddu a allai effeithio'r swm o gyllid a fyddai angen. Nododd ei fod yn brosiect cymhleth a bod llawer o bethau anhysbys ar hyn o bryd, ond y byddent yn ddibynnol iawn ar bartneriaid eraill ac asiantaethau partner i chwarae rhan, gan y byddai sicrhau'r seilwaith yn cael effaith ranbarthol.

O ran yr elfen ranbarthol, holodd Aelodau a oedd cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Network Rail am gyllid. Er eu bod nhw'n llwyr gefnogol o'r prosiect, roeddent yn awyddus i gael sicrwydd na fyddai'r groesfan yn achosi problemau traffig yn y lonydd cefn wrth ei waredu, yn enwedig drwy Hendre a Coety.

Nododd y Swyddogion o ran yr elfen ranbarthol, roedd Trafnidiaeth Cymru a Network Rail wedi bod ynghlwm wrth y grŵp llywio a sefydlwyd, ac yn cefnogi'r prosiect, ond ni fyddant yn cynnig cyllid. Er mwyn brrw ymlaen â'r prosiect, roedd ganddynt gyllid gan Brifddinas-ranbarth Caerdydd (CCR). Doedden nhw ddim yn gwybod beth fyddai'n digwydd gyda chyllid CCR, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, ond byddant yn chwilio am raglenni cyllid wrth iddynt ddod i'r amlwg. Wrth i'r prosiect ddod yn ei flaen gan arwain at ragor o sicrwydd, byddai rhagor o gyfle i ddenu cyllid ychwanegol posibl drwy ddulliau eraill. O ran sicrwydd am draffig, cyn edrych ar gynigion datblygu i'r dyfodol, roedd rhaid cael syniad o'r effaith, ni fyddai'n bosibl gwybod hyn nes bod y bont newydd wedi'i osod. Fodd bynnag, rodden nhw'n cadw llygad arno ac yn cydnabod y byddai angen gwneud darn o waith arall ar hyn gyda'r prosiect hwn.

Gofynnodd Aelodau a fyddai modd cynnwys cynnig ar gyfer etholaeth Ogwr yn y cylch nesaf o gynlluniau a chyllid?

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau eu bod wedi creu tri chynllun ar gyfer etholaeth Ogwr dros y 12 mis diwethaf, ond yn anffodus nid oedd y Swyddogion Cronfa Ffyniant Bro o'r farn bod unrhyw gynllun yn bodloni'r mein prawf. Roedd hi eisiau gwneud yn glir eu bod wedi gweithio'n galed, a'i fod wedi bod yn siom mawr i'r Tîm.

Gofynnodd Aelodau a oedd gwers wedi'i dysgu o ran bod angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod â chynllun buddsoddi strategol cynhwysfawr, fel bod dyheadau a phrosiectau yn barod ac yn addas pan fyddai cyfle'n codi?

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau ei bod wedi bod yn anodd oherwydd pan gyhoeddwyd y Gronfa Ffyniant Bro, ni ryddhawyd unrhyw feini prawf neu ganllawiau manwl, doedden nhw ddim yn nabod yr unigolion ynghlwm ac rodden nhw'n dîm newydd, felly roedd rhaid iddynt weithio ar sail cynlluniau blaenorol. Nododd bod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn rhagorol am ysgrifennu ceisiadau cyllid, felly nid oedd y broblem oherwydd diffyg sgiliau ysgrifennu, ond oherwydd y diffyg mein prawf a oedd ar gael. Cyfeiriodd at y Strategaeth 2030 a'r Strategaeth Datblygu Economaidd a oedd gerbron y Cyngor ym mis Mawrth, a oedd yn cynnwys nifer sylweddol o brosiectau, felly rodden nhw'n gwybod beth oedd y prosiectau ac yn awyddus i symud ymlaen â nhw a sicrhau eu bod yn barod, ond yn anffodus roedd y Tîm eisoes yn brysur yn datblygu beth

oedd ar gael o'u blaenau nhw. Fodd bynnag, roedd hi'n gobeithio y bydden nhw mewn sefyllfa well yn y dyfodol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

1. Yn debyg i'r trafodaethau yngylch SPF, dylid mynegi pryder yngylch y terfynau amser byr o ran y ceisiadau i'r Gronfa Ffyntiant Bro, yn ogystal â'r terfynau amser i gyflawni'r prosiectau, yn enwedig os na chaniateir unrhyw estyniad. Roedd Pont Reilffordd Penprysg yn risg benodol oherwydd lefel y gwaith y byddai ei angen er mwyn dod i ben.
2. Roedden nhw'n llwyr gefnogol o'r gwaith yngylch trefniadau amgen neu dros dro a lleoliadau yn ystod y cyfnod pan fyddai'r Pafiliwn Grand ym Mhorthcawl ar gau. Fodd bynnag, rhoddwyd pwyslais penodol ar sicrhau na fyddai Porthcawl yn colli nifer yr ymwelwyr a refeniw. Gofynnodd Aelodau am adborth ar y cynlluniau hyn ac am fesurau lliniaru pan fyddent ar gael, ond ymhellach i hyn, argymhellwyd y dylid cynnal astudiaeth o ddichonoldeb yn rhan o'r gwaith hwn o ran gosod cyfleuster dros dro ym Mhorthcawl tra bod y Pafiliwn ar gau. Cynigiwyd defnyddio'r elfen Adran 106 o'r contract datblygu o ran lleihau effaith cau'r adeilad ar y gymuned.

Gofynnodd y Pwyllgor:

1. Terfyn amser o ran cwbllhau prosiect Neuadd Dref Maesteg. Codwyd pryderon yngylch a fyddai'r Neuadd Dref wedi dod i ben cyn i'r Pafiliwn gau ar gyfer ailddatblygu. Gofynnodd Aelodau hefyd am wybodaeth o ran beth oedd hyn yn ei olygu i refeniw Awen.
2. Gwybodaeth bellach (gan gynnwys astudiaeth o ddichonoldeb posib a nodwyd yn yr argymhellion uchod) am unrhyw gyfleuster dros dro arfaethedig a threfniadau amgen tra bod y Pafiliwn ar gau.

Mynegwyd pryderon yngylch cyllid a chyflawniad y prosiect Pont Reilffordd Penprysg, a'r effaith bosibl o draffig yn yr ardal. Gofynnodd y Pwyllgor am bapur briffio unwaith y byddai'r prosiect wedi'i gymeradwyo, gan nodi'r cynlluniau a fyddai ar waith i fonitro a lleddfu effaith traffig ar ddwy ochr y bont arfaethedig. O ran parcio ym Mhorthcawl yn gysylltiedig â phrosiectau ailddatblygu megis y Pafiliwn Grand a'r nod o gynyddu nifer yr ymwelwyr i'r ardal, cafodd y Pwyllgor wybod am astudiaeth Parcio sydd ar waith ym Mhorthcawl yn rhan o'i gynlluniau Adnewyddu a Chreu Lleoedd. Gofynnodd y Pwyllgor iddynt fod ynghlwm wrth ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Strategol ar gyfer Porthcawl, a bod hyn yn cael ei ychwanegu at Flaenraglen waith y Pwyllgor.

**11. DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH**

Ar ôl ystyried yr adroddiad ar Ddiweddariad y Blaenraglen Waith, gofynnodd y Pwyllgor i'r eitemau canlynol gael eu hychwanegu:

1. Diweddariad ar gynnal a chadw Priffyrrdd.
2. Diogelwch cerddwyr mewn pentrefi hanesyddol.

**Trwyddedu Tacsis**

Gwnaeth y Pwyllgor:

- fynegi pryder bod tacsis ond yn gallu defnyddio un or saf MOT ag achrediad DVSA, ac os yw'r cerbyd yn methu, does dim modd gwneud y gwaith trwsio yn

fanno. Mae'n rhaid trefnu apwyntiad mewn modurdy arall i wneud y gwaith, ac yna threfnu i fynd i'r orsaif MOT unwaith eto am ffi ychwanegol a phrawf arall, a all arwain at dacsis yn gorfod bod oddi ar y ffordd am gyfnod hirach, costau uwch a cholled sylweddol o ran incwm. Hefyd, mae'r modurdy'n brysur iawn gyda phrofi cerbydau Heddlu De Cymru a BCBC.

- gyfeirio at Awdurdodau Lleol eraill, e.e. Caerdydd, yn caniatáu'r defnydd o unrhyw orsaif MOT ag achrediad DVSA sy'n gwneud pethau'n haws i weithredwyr ac yn fwy teg i orsafoedd MOT ag achrediad DVSA.
- mynogi pryder ynghylch yr effaith bellach y gallai hyn fod yn ei gael yn lleol ynghylch y cyfnod byr y mae tacsis ar gael yn y Fwrdeistref Sirol yn gyffredinol, ac yn enwedig yn hwyr yn y nos.
- gofyn sut roedd perfformiad/dibynadwyedd tacsis yn cael ei fonitro drwy adnewyddu trwyddedau neu fel arall, a sut roedd yr Awdurdod yn adolygu achosion o ganslo, achosion o ganslo'n hwyr yn y nos, argaeledd ar ôl oriau, a beth oedd yn cael ei wneud i alluogi gwelliant a fflyd tacsis dibynadwy.
- cyfeirio'r pwnc i'r Pwyllgor Trwyddedu er ystyriaeth a gweithredu.

#### Adroddiad Adnewyddu Porthcawl

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad ar Adnewyddu Porthcawl a oedd wedi'i drefnu ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 ar 20 Chwefror 2023, gan wneud cais i gael clywed cefndir y prosiect Cosy Corner yn rhan o gwmpas yr adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor i gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol gael gwahoddiad i ddod i graffu'r adroddiad.

- Croeso Cymru
- Credu Charity Limited, o'r enw Community Interest Company gynt,
- Porthcawl Harbourside

#### PENDERFYNWYD:

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Blaenraglen waith yn Atodiad A, yn amodol ar yr ychwanegiadau a'r ceisiadau uchod. Nodwyd y Blaenraglen waith a byddai unrhyw ddiweddarriad o'r Pwyllgor yn cael eu hadrodd yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd hefyd y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B.

#### 12. EITEMAU BRYS

Dim

This page is intentionally left blank

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 14 TACHWEDD 2022**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR  
Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31  
4WB DYDD LLUN, 14 TACHWEDD 2022, AM 16:00**

**Presennol**

Y Cyngorydd P Davies – Cadeirydd

H T Bennett	F D Bletsoe	S J Bletsoe	C Davies
M J Evans	RM Granville	S J Griffiths	M L Hughes
P W Jenkins	M Jones	MJ Kearns	W J Kendall
RL Penhale-Thomas	J E Pratt	T Thomas	G Walter
A Williams	AJ Williams	MJ Williams	

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

N Clarke a/ac I Williams

**Swyddogion:**

Lucy Beard	Swyddog Craffu
Lynne Berry	Rheolwr Grŵp Adfywio Tai a Chymuned
Joanne Ginn	Arweinydd Tîm Atebion Tai
Ryan Jones	Rheolwr Comisiyny Tai Strategol
Jessica Mclellan	Swyddog Craffu
Martin Morgans	Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

**14. DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Datganodd y Cyngorydd Ross Penhale-Thomas fuddiant personol fel gweithiwr llawn amser i elusen tai a chydraddoldeb, yr oedd y Gwahoddedigion yn aelodau ohoni.

Datganodd y Cyngorydd Jonathan Pratt fuddiant personol fel Gwirfoddolwr Ymateb i Argyfwng gyda'r Groes Goch Brydeinig.

Datganodd y Cyngorydd Alex Williams fuddiant personol fel landlord yn y sector rhentu preifat.

Datganodd y Cyngorydd Melanie Evans fuddiant personol fel Cyngorydd Tref Pencoed.

Datganodd y Cyngorydd Tim Thomas fuddiant personol fel gweithiwr llawn amser i gorff oedd yn cynrychioli asiantau eiddo.

Datganodd y Cyngorydd Martyn Jones fuddiant personol fel landlord yn y sector preifat.

Datganodd y Cyngorydd Amanda Williams fuddiant personol am fod cyfaill ar y gofrestr tai ac mewn llety brys.

Datganodd y Cyngorydd Steven Bletsoe fuddiant personol fel gweithiwr llawn amser i gorff aelodaeth yn y sector rhentu preifat ac na fyddai'n cymryd rhan yn unrhyw drafodaethau yn ymwneud â'r sector rhentu preifat.

Datganodd y Cyngorydd Heidi Bennett fuddiant personol fel landlord yn y sector preifat.

Datganodd y Cyngorydd Mike Kearns fuddiant personol am fod perthynas ar y gofrestr tai.

Datganodd y Cyngorydd Freya Bletsoe fuddiant personol am fod peth o incwm y teulu yn deillio o'r sector rhentu preifat a bod cyfaill mewn llety brys dros dro.

Datganodd y Cyngorydd Martin Williams fuddiant personol am fod cyfaill mewn llety brys dros dro.

Datganodd y Cyngorydd Richard Granville fuddiant personol am fod person yr oedd yn ei adnabod mewn llety brys dros dro.

**15. DATGANIAD AM Y SEFYLLFA DAI**

Cyflwynodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau y Datganiad am y Sefyllfa Dai gan egluro mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau polisi yn y gwasanaethau tai a'r sefyllfa bresennol o ran ailgartrefu a digartrefedd.

Darllenodd y Cadeirydd ymateb ysgrifenedig a dderbyniwyd gan y Grŵp Tai Arfordirol oedd yn methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Gan gyfeirio at ddatganiad ystadegol diweddar gan Lywodraeth Cymru lle roedd yr Awdurdod yr ail awdurdod lleol trefol gwaethaf yng Nghymru o ran stoc tai cymdeithasol, gofynnodd yr Aelodau beth oedd y cynlluniau i wrthdroi'r duedd hon a holi a oedd modd i eiddo masnachol, nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach yn dilyn y pandemig, gael ei drosi'n fflatiau neu'n rhandai. Gofynnwyd i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a oedd modd ehangu'r stoc tai yn y Fwrdeistref Sirol i ddatrys y broblem a gwella'r sefyllfa.

Atebodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau o safbwyt yr Awdurdod a chan gyfeirio at y Cynllun Datblygu Rhaglen, fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi tua £30 miliwn y flwyddyn o ran darparu tai cymdeithasol gyda'r bwriad o greu 470 o dai dros gyfnod o ddwy flynedd. At hynny, roedd arian gan y Llywodraeth o amgylch y cyfnod trosiannol y gallai LCC wneud cais amdano ar gyfer gwella'r stoc bresennol a chyflymu'r broses o adfer defnydd rhai tai. O fewn y Cynllun Datblygu Lleol, oedd yn destun ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (LIC) ar y pryd, yr oeddent yn edrych ar 7000 o unedau o fewn y cynllun hwnnw. Fforddiadwyedd oedd y ffactor allweddol ond gyda'r arian a'r polisi cywir yn eu lle, roeddent yn gobeithio y byddai'n eu symud ymlaen o ran datblygu eu stoc tai cymdeithasol a gwella'r sefyllfa yr adroddwyd amdani.

Holodd yr Aelodau a oedd Polisi Gosod Tai Cymdeithasol (SHAP) yn dal i fod yn addas i'r diben oherwydd newidiadau yn y pwysau ar bobl ac ar dai ers 2017 ynteu a oedd adolygiad wedi'i amserlennu.

Dyweddodd y swyddogion fod yna strategaeth fyddai'n destun ymgynghoriad yn dilyn adrodd amdani wrth y Cabinet, a phan fyddai'r ymatebion wedi dod i mewn cai cynllun gweithredu ei greu, a rhan o hynny fyddai adolygu'r SHAP mewn ymgynghoriad â phartneriaid.

Gofynnodd yr Aelodau pa ddewisiadau fyddai ar gael i'r ffoaduriaid o Wcráin, pan ddeuai eu chwe mis o fyw gyda theuluoedd i ben am wahanol resymau, o ystyried yr amser aros ar y gofrestr tai cymdeithasol. A fyddai'r dewis i deuluoedd wneud eu hunain yn ddigartref, gan ei bod yn hynod o anodd i iddynt rentu gan landlordiaid preifat sy'n gofyn am dystiolaeth o 6 mis o rent a bod darpar denantiaid mewn cyflogaeth lawn amser? Gofynnwyd a oedd nifer y ffoaduriaid yn y Fwrdeistref Sirol ar gael.

Dyweddodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau fod yna bryder yn yr adran Dai o safbwyt y ffoaduriaid a bod gweithgor dan arweiniad Pennaeth Cyllid, Perfformiad a Newid yn monitro'r sefyllfa gyda chyfranogiad a chefnogaeth aml-sector e.e., Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg.

Cyfeiriodd swyddogion at y rhyfel yn yr Wcráin yn para yn hirach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol gan y Swyddfa Gartref pan oeddent yn hysbysebu am westeion am gyfnod o chwe mis a'u bod yn gweld llu o drefniadau o'r fath yn dod i fyny ac o bosibl wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnod o chwe mis bryd hynny. Nid oedd yr union nifer wrth law gan swyddogion ond dywedwyd bod tua dau gant o ffoaduriaid o Wcráin yn y Sir. Ni fyddai swyddogion yn cynghori rhywun i gyflwyno ei hun yn ddigartref ac roeddent yn meddwl

ei bod yn bwysig bod y gwasanaethau digartrefedd yno fel rhwyd ddiogelwch lle na allai perthnasoedd neu leoliadau lletya barhau, sef y llwybr oedd yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru. O ran y sector preifat, roeddent yn gweld rhai teuluoedd o Wcráin yn symud i mewn i eiddo rhentu preifat ac roeddent wedi gallu cynorthwyo pobl drwy hynny.

Gofynnodd yr aelodau i'r LCC am amserlenni eu hunedau gwag, ac a fyddai'r holl unedau gwag yn cael eu newid yn ystod nifer cyfartalog diwrnodau trosiant unedau gwag.

Esboniodd Prif Weithredwr Tai y Cymoedd i'r Arfordir y cai unedau gwag eu cyfrif o'r adeg y deuai'r allweddi i mewn i'r adeg pan fyddai'r allweddi'n mynd allan, a dywedodd fod ganddynt 114 o unedau gwag ddiwedd mis Hydref er y byddai ganddynt eiddo gwag yn corddi drwy'r amser, sef yn gyffredinol tua 50 eiddo y mis, ac felly y byddai'r nifer hwnnw'n parhau i newid, ond lle roeddent ar ddiwedd mis Hydref tua 69 diwrnod oedd yr amser newid rhwng yr allweddi'n mynd i mewn a mynd allan o ran y rhai y gallent eu newid.

Cyfeiriodd yr aelodau at y fflatiau ym Mharc Derwen fel yr olaf o'r llety i gael eu darparu ar y safle. Ni wyddent pa Gymdeithas Tai oedd yn berchen arnynt ond holwyd pam y cafodd y fflatiau eu gadael tan y diwedd, ai yr adran gynllunio oedd i gyfrif am hynny a sut y cai Cymdeithasau Tai lais ynghylch pryd y deuai'r safleoedd hyn ar gael. Gofynasant hefyd pam mai fflatiau oedd yr eiddo i gyd gan mai eu pryder oedd y byddai pobl ar y rhestr aros yn disgwyl am fyngalo a gofynnwyd sut yr oedd y Cymdeithasau Tai yn cael rhan mewn penderfynu ar y math o eiddo oedd yn cael ei ddyrannu.

Dywedodd Prif Weithredwr Tai y Cymoedd i'r Arfordir eu bod yn gweithio gyda'r datblygwyr fel rhan o gytundeb Adran 106 o ran ble mae'r unedau, ble maent yn adeiladu a phryd y byddant yn cael eu cwblhau fel rhan o'r trosglwyddiad a'u bod yn gwybod mai'r angen yn lleol oedd fflatiau un ystafell wely a rhandai, sef yr hyn yr oeddent yn gweithio arno gyda'r Awdurdod Lleol.

Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch y cyfyngiadau ar bobl tra roeddent mewn llety brys e.e., peidio â chael eu plant i ymweld, a chyrffyw yn y nos, a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud yn y cyfamser i sicrhau nad oedd y trigolion hyn yn teimlo fel dinasyddion eilradd ac yn cael yr un faint o gymorth i barhau â'u bywydau.

Eglurodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau fod rhai o'r anawsterau a grybwyllyd yn ymwneud â diogelu, oherwydd bod gan lety dros dro o reidrwydd sbectrwm o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu lletya ar yr amser hwnnw. Bu heriau ond sicrhaoedd nad oedd yr un person digartref yn cael ei ystyried yn ddinesydd eilradd mewn unrhyw ffordd, a bod y Swyddogion yn gweithio'n ddiflino i ddod o hyd i lety tymor hir oedd yn cynnig tenantiaeth ac yn eu diogelu wrth iddynt fynd ymlaen.

Gan ystyried y 254 o oedolion a 143 o blant yr adroddwyd eu bod mewn llety dros dro, gofynnwyd i Swyddogion a Chynrychiolwyr y LCC beth oedd eu syniadau yn y tymor byr a chanolig ar gyfer delio â'r argyfwng tai.

Rhoddodd y LCC a Swyddogion eu hatebion, oedd yn cynnwys:

- Gwneud y gorau o'r rhaglen ddatblygu oedd ar waith yn y Sir: edrych ar dir a chyfleoedd wrth iddynt godi.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr wrth i unedau ddod ar gael a'u dyrannu i'r rhai mewn angen.
- Llwyddo i sicrhau cyllid Grant Llety Trosiannol i adfer defnydd tai gwag yn gynt.
- Ymroi i weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i weld sut y gellid gwella prosesau.

- Gweithio drwy Gyrff Masnach gyda Llywodraeth Cymru i weld sut y gallent fod yn hyblyg gyda'r ffrydiau ariannu i allu ymateb yn gynt o lawer.
- Roedd yr holl ddyraniadau'n mynd yn uniongyrchol i CBS Pen-y-bont ar Ogwr a'r chwarter diwethaf roedd yr holl gartrefi oedd ar gael wedi mynd ymlaen i'r rhaglen ailgartrefu cyflym.
- Edrych ar bob cyfle i gynyddu cyflenwad.
- Cydweithio i nodi tir posibl neu adeiladau presennol i'w haddasu a sut i ddod â hwy ymlaen drwy'r system gynllunio yn gyflymach.
- Mabwysiadu model o reoli tai oedd yn hyfforddi ynghylch perthynas a hynny gydag ymwybyddiaeth o drawma.
- Gwneud y gorau o'r Cyllid Grant Trosiannol ac unrhyw gyllid arall gan Lywodraeth Cymru.
- Edrych ar sut i gydweddu'r math cywir o lety gyda'r anghenion cymorth cywir.
- Lleihau'r defnydd o westai fel llety dros dro.

Cyfeiriodd yr aelodau at Dai y Cymoedd i'r Arfordir yn cadw 25% o'u stoc tai ar gyfer hunan-ddyrrannu a gofynnwyd a oedd hynny'n cael ei ystyried ynghyd â'r 114 o eiddo gwag ac a oedd yn cyfyngu ar eu cefnogaeth bresennol i'r argywng.

Dyweddodd Prif Weithredwr Tai y Cymoedd i'r Arfordir mai 75% oedd y dyraniad i CBS Pen-y-bont ar Ogwr, ond eu bod, oherwydd yr argywng, wedi bod yn cynnig yr holl stoc i'r Awdurdod.

Holodd yr aelodau a fu cynnydd mewn digartrefedd a cheisiadau am gartrefi gan gynaelodau o'r lluoedd arfog ac, os felly, a oedd problem yno a beth oedd yn cael ei wneud yn yr achos hwnnw i'w cynorthwyo hwy'n benodol.

Atebodd swyddogion na fu ganddynt yn hanesyddol, ac nad oedd ganddynt ar hyn o bryd, lawer iawn o gyn-filwyr o ran angen tai ac felly nid oeddent erioed wedi teiwr a gwasanaeth o amgylch y grŵp hwnnw. Eglurasant fod eu gwasanaethau cymorth yn niwtral fel y gellid darparu cymorth i unrhyw un, ond gallent ymchwilio ymhellach i weld a oedd y niferoedd wedi codi a gallent gylchredeg y ffigurau i'r Pwyllgor.

Mynegwyd pryder ynghylch p'un a oedd y llety a ddyrennid i bobl anabl a phobl oedrannus yn hygyrch ac yn ddiogel ac yn eu galluogi i fyw'n annibynnol gan ei bod yn ymddangos bod oedi pan oedd pobl hŷn ac anabl yn ceisio cael addasiadau a newidiadau i'w heiddo drwy Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA). Holodd yr Aelodau beth oedd yr Awdurdod yn ei wneud i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn dilyn cyfnodau clo Covid.

Sicrhodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau eu bod, o ran adeiladau newydd yn y dyfodol, yn gweithio'n galed gyda'r LCC ynghylch hygyrchedd, gan nodi bod arnynt eisiau hirhoedledd ar gyfer eu hunedau llety. Roeddent wedi mynd drwy gyfnod estynedig gyda'r grant cyfleusterau i'r anabl dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn atal mynediad i gartrefi pobl ond hefyd cymryd rheolaeth o'r Grant yn fewnol yn yr Awdurdod, oedd wedi golygu bod rhai heriau wedi codi. Roeddent yn bwriadu mynd allan i gaffael fframwaith ar gyfer contractwyr a fyddai'n gwneud y gwaith i gyd iddynt o'r naill ben i'r llall. Roeddent hefyd wedi cael problemau reciwtio yn eu Tîm Cyfleusterau i'r Anabl, ac felly roedd yn fater o gydwyso rhwng y ffaith fod arnynt eisiau cynyddu adnoddau ond yn methu â reciwtio.

Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddarriad ar y Cynllun Tai yn Gyntaf; unrhyw ganlyniadau a faint o bobl oedd yn ei ddefnyddio.

Rhoddodd swyddogion grynodeb o'r gwasanaeth gan ddweud eu bod o safbwyt yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo'n wirioneddol iddo, o ran buddsoddiad a'u bod wedi cael rhai canlyniadau da iawn o ran y rhai oedd wedi bod mewn llety ac o ran cynorthwyo'r

rhai oedd yn cysgu allan ac mewn llety dros dro i gyrraedd pwynt lle gallent edrych ar llety. Roeddent yn meddwl ei bod yn bwysig nodi nad Tai yn Gyntaf oedd yr ateb i bawb gan fod carfan fechan ag anghenion rhy gymhleth ar gyfer Tai yn Gyntaf, ond roeddent yn awyddus i gynyddu'r modelau llety pan fyddai'r cyfleoedd yn dod i fod drwy'r rhaglen ddatblygu.

Mynegwyd pryder ei bod yn anodd reciwtio staff gyda llawer o swyddi, y cyfeiriwyd atynt yn yr Adroddiad, yn dal heb eu llenwi ac a oedd yn bosibl bod gweithio i dîm bychan yn golygu llwythi achosion mwy a bod camgymeriadau wedyn yn fwy tebygol o ddigwydd. Holodd yr aelodau beth oedd yn cael ei wneud i gyflogi mwy o staff, a oedd hysbysebu wedi cynyddu ac a oedd rhaglen fwy o faint am gael ei rhoi ar waith.

Atebodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau mai'r rheswm eu bod yn mynd allan i ehangu'r Tîm oedd i ganolbwytio ar y ddarpariaeth digartrefedd a'r pwyntiau lle roedd pwysau, eu bod yn gweithio'n galed iawn gydag Adnoddau Dynol (AD) o ran adolygu disgrifiadau'r swyddi a'r manylebau person er mwyn eu galluogi i fod yn rhagweithiol a defnyddio holl sianeli'r cyfryngau perthnasol a gefnogir drwy AD.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd yr Awdurdod yn ei wneud i ymgysylltu â landlordiaid rhentu preifat i'w galluogi i'n cynorthwyo i ymdrin â diffyg tai.

Esboniodd swyddogion fod gwahaniaeth mawr rhwng adenillion y lwfans tai lleol a'r sector rhentu preifat a'i fod yn lleihau cymorth y sector rhentu preifat i raddau, ond eu bod yn lobio LIC ynghylch lefelau lleol y lwfans tai i weld a ellid ei gynyddu. Roeddent hefyd wedi cyflwyno cynlluniau i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth o fewn y sector rhentu preifat a phe bai unrhyw broblemau ariannol neu unrhyw bryderon gan y landlord, yna byddai'r partner niwtral hwn ar gael. Roeddent hefyd yn ystyried ehangu'r cynllun prydlesu oedd wedi gweithio'n dda ac a allai hefyd gefnogi tenantiaid i'r sector preifat gyda bond a rhent ymlaen llaw.

Gofynnodd yr Aelodau a allent fod yn arloesol yn y ffordd y gellid defnyddio eu hadnoddau ariannol pan nad oedd y farchnad yn gweithio iddynt, er enghraift, prynu gwesty neu gyfleuster tebyg, a gofynnwyd a oedd rheswm deddfwriaethol pam na ellid gwneud hyn.

Dywedodd swyddogion fod yr achos y cyfeiriwyd ato wedi symud yn gyflym ac nad oeddent mewn sefyllfa i symud mor gyflym â hynny a bod angen iddynt edrych ar ba lety fyddai ei angen wrth symud ymlaen. Roeddent yn esbonio bod cyfyngiadau hefyd ar yr hyn y gallent ei ariannu a'i ddarparu yn y dyfodol. At hynny, wrth symud ymlaen nid oedd LIC yn gweld llety mewn gwesty yn addas i'r diben o ran darparu tenantiaeth sicr.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch ei weledigaeth i ddatrys yr argyfwng, dywedodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod hwn yn argyfwng cenedlaethol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig a'u bod mewn sefyllfa lle roeddent yn wynebu toriadau dyfnach oherwydd rhesymau allanol na ellid eu hosgoi. Dywedodd fod angen iddynt fod yn edrych ar atebion creadigol a'u bod yn gweithio fel Cabinet gyda'r Tîm i ddal i edrych ar atebion gwahanol a newydd wrth symud ymlaen yn ogystal â chyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Roedd yr aelodau'n bryderus bod nifer y bobl yr adroddwyd eu bod yn cysgu allan yn anghywir, gan gyfeirio at adroddiad LIC oedd yn manylu ar y rhai oedd yn cysgu allan ar 31 Awst 2022.

Eglurodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau nad oeddent yn tan-adrodd a'u bod yn adrodd yn unol â Chanllawiau LIC ar bwynt mewn amser ar ddiwrnod penodol pryd y gofynnodd LIC iddynt gyfrif. Dywedodd fod eu partner yn y trydydd sector wedi cynnal y

cyfrifiad ac nad oedd yn cofnodi ond pan fyddai LIC yn gofyn am hynny yn unol â'r Awdurdodau eraill, ac felly byddai gwahaniaethau ar y naill ochr i'r pwyt hwnnw; nid oedd yn golygu eu bod yn llai gweithredol o ran ceisio lliniaru neu leihau'r niferoedd hynny. Roeddent yn ymwybodol o'u holl gymuned cysgu allan ar draws y fwrdeistref drwy eu Tîm Ailosod.

Cyfeiriodd yr Aelodau at ddarparu tai brys yn dilyn achosion megis trychineb naturiol, llifogydd, neu dŵn naturiol neu ddomestig a gofyn beth oedd strategaeth a pholisi'r Cyngor a pha mor gyflym y gallent gael pobl oedd yn ddioddefwyr y math yma o sefyllfa i mewn i lety. Gan gyfeirio at baragraff 4.8 yn yr adroddiad a Chanllawiau newydd LIC oedd yn barnu bod gwestai yn llety anaddas, gofynnwyd pa waith yr oedd yr Awdurdod Lleol yn ei wneud ar gyfer tenantiaid cymdeithasol a phreifat nad oedd gan eu landlordiaid yswiriant digonol i ddarparu tai brys a pherchnogion tai preifat nad oedd ganddynt yswiriant digonol, fel mai'r canlyniad oedd troi at yr Awdurdod Lleol.

Atebodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau drwy ddweud y byddent, yn achos aelwyd unigol, yn delio â'r mater fel cyflwyniad digartrefedd yn dod i'r amlwg. Fodd bynnag, pe bai ar raddfa fwy, byddent yn gweithredu eu cynlluniau adfer mewn argyfwng fel y gallent hwyluso llety tymor byr yn y Ganolfan Fywod ym Mhen-y-bont ar Ogwr. O ran safbwyt LIC nad oedd llety gwesty yn addas i'r diben ar gyfer gofyniad llety tenantiaeth hirdymor, roeddent yn gweithio gyda phartneriaid ac yn edrych ar gyfleoedd cronda drosiannol a pheidio â defnyddio gwestai, sef eu datganiad sefyllfa yn y pen draw.

Bu'r aelodau'n trafod cynnal demograffeg ar draws y gymuned er mwyn cyrraedd y boblogaeth ehangaf. Roeddent yn dyfalu tybed beth oedd yn cael ei wneud gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, yn arbennig, i sicrhau eu bod yn diogelu cynaladwyedd eu cymunedau fel y gall pobl hŷn gadw eu gwreiddiau yn eu cymunedau, a'u galluogi i symud allan o eiddo sy'n anaddas neu'n anhygyrch am ba reswm bynnag ac yn gallu cynnal eu hannibyniaeth yn y gymuned leol mewn eiddo gydag 1 neu 2 ystafell wely neu eiddo sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

Atebodd y LCC eu bod yn cynorthwyo pobl i aros yn hapus ac yn iach yn eu cartrefi drwy ddefnyddio Grantiau ac addasiadau a chefnogi asiantaethau trydydd sector fel Gofal a Thrwsio. Yn ogystal â'r stoc oedd ganddynt yn yr ardal ar y pryd, roeddent bob amser yn ceisio datblygu llety newydd, lle gallent wneud fflatiau llawr gwaelod yn yr ardal mor hygyrch â phosibl ac adeiladu llety llai fel fflatiau gydag 1 neu 2 ystafell wely lle gallent, ac roedd cymorth drwy'r Grant Tai Cymdeithasol yn seiliedig ar yr angen am dai yn yr ardal. Roeddent yn dweud y gallai byngalos fod yn ddrud i'w datblygu ac nad oedd tir ar gael bob amser i wneud y datblygiadau hynny'n ymarferol wrth symud ymlaen, ond eu bod yn sicr bob amser yn ceisio creu cymunedau cymysg a, lle bo'n bosibl, gadw pobl yn eu cartrefi.

Gyda golwg ar y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (y Ddeddf) newydd sy'n datgan bod yn rhaid i dai cymdeithasol fod yn addas i bobl fyw ynddynt, gofynnodd yr Aelodau a fyddai hynny'n ymestyn yr amseroedd gwag gan fod angen i'r tai fodloni meinu prawf cymwys penodol megis synwyryddion carbon monocsid a larymau mwg gwifredig.

Dyweddodd y LCC eu bod yn cynnal asesiad o ran gofynion y Ddeddf oedd yn dod i rym a'r cynnydd mewn safonau, ond na fyddent yn hoffi ei gweld yn effeithio ar eiddo gwag. Dywedasant fod rhai o'r pethau a grybwylwyd gan yr Aelodau megis larymau mwg a charbon monocsid wedi eu sicrhau eisoes. Er bod y Ddeddf yn cyflwyno safon uwch ar gyfer llawer o stoc ar rent ac oddeutu tri ar ddeg o delerau gwahanol o ran addasrwydd yr eiddo i bobl fyw ynddynt, ac roeddent wrthi'n gweithio drwy'r hyn a olygai'r safonau hynny.

## PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 14 TACHWEDD 2022

Myneidd yr Aelodau bryder ynghylch ôl-groniad y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw eiddo oedd wedi cranni ers pandemig Covid a'r angen i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw cyffredinol er mwyn lles yn enwedig y bobl hŷn oedd yn byw ac wedi byw yn yr eiddo ers deugain mlynedd neu fwy.

Sicrhodd Prif Weithredwr Tai y Cymoedd i'r Arfordir yr aelodau eu bod yn gwneud cynnydd ar yr ôl-groniad oedd yn ganlyniad y pandemig. Eglurodd fod ganddynt bot o arian yr oedd angen iddynt ei flaenoriaethu yn seiliedig ar arolygon cyflwr pob un o'u heiddo. Dywedodd nad oeddent yn derbyn ond taliad gwaddol am y pum mlynedd cyntaf ar ôl Trosglwyddo Stoc Tai i gwrdd ag addewidion tenantiaid a bod colli buddsoddiad wedi bod yn amlwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond eu bod yn mynd i'r afael ag ef ac wedi bod yn cael cefnogaeth aelodau lleol y Senedd i symud hyn ymlaen. Gorffennodd drwy ddweud bod pob un o'u heiddo wedi cael arolwg cyflwr, y maent yn ei ddefnyddio i flaenoriaethu, a'u bod yn gwneud gwelliannau, bod eu cwynion wedi lleihau a'r ôl-groniad o ran atgyweiriadau arferol wedi lleihau.

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd rhagor o gwestiynau i'r Gwahoddedigion, diolchodd iddynt am fod yn bresennol a gadawsant hwythau'r cyfarfod.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn:

1. Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i ofyn sut i sicrhau gwell ymgyngħori rhwng Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a datblygwyr tai ynghylch y mathau a'r niferoedd cyfatebol o llety sy'n cael eu hadeiladu a'r flaenoriaeth ar gyfer eiddo i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
2. Bod y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn darparu ymateb ysgrifenedig ar eu syniadau tymor byr a thymor canolig i fynd i'r afael â'r argyfwng tai a sut i ddod â mwy o gyfleoedd ymlaen.

Gofynnodd y Pwyllgor ymhellach am:

1. Wybodaeth am faint o gyn-filwyr/cyn-aelodau'r lluoedd arfog oedd wedi ymgyflwyno'n ddigartref i'r Awdurdod ac angen llety.
2. Gwybodaeth gan yr Adran Rheoli Datblygu ynghylch datblygiadau tai cymdeithasol blaenorol a faint o unedau tai cymdeithasol oedd wedi cael eu cwtogi yn gyfnewid am arian 106.

Gofyn i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a oedd modd iddynt ddarparu gwybodaeth am y Grant Addasiadau Ffisegol (PAG) oedd ar gael a'r effaith a gâi ar restrau aros am dai i bobl ag anableddau neu rai oedd yn disgwyl am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

## 16. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A i'r Pwyllgor ei thrifod a'i hystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys y bobl y dynunent eu gwahodd i fynychu. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan gofio'r mein prawf dethol ym mharagraff 4.3 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi y byddai'r Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor yn cael ei hadrodd wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

### **PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 14 TACHWEDD 2022**

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.3, a gellid ailystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor  
Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ac yn nodi'r Argymhellion yn y Daflen Weithredu Monitro yn Atodiad B.

### **17. EITEMAU BRYS**

Dim

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 12 RHAGFYR 2022**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN HYBRID  
IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB  
DYDD LLUN, 12 RHAGFYR 2022, AM 16:00**

**Presennol**

Y Cyngorydd P Davies – Cadeirydd

S J Bletsoe  
W J Kendall  
MJ Williams

N Clarke  
J E Pratt

C Davies  
G Walter

M J Evans  
I Williams

**Swyddogion:**

Lucy Beard	Swyddog Craffu
Nicola Echanis	Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar
Rachel Keepins	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Meryl Lawrence	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Jessica Mclellan	Swyddog Craffu
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Andrew Thomas	Rheolwr Grŵp - Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

**19. DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Fe wnaeth yr aelodau a restrir isod ddatgan buddiant personol yn eitem 3 ar yr Agenda - Dyletswydd, Asesiad a Chynllun Gweithredu Digonolwydd Cyfleoedd Chwarae i Sicrhau Cyfleoedd Digonol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fel y nodir:

Y Cyngorydd Ian Williams, Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Llywodraethwr Ysgol Gynradd yr Hengastell ac Ysgol Gyfun Brynteg.

Y Cyngorydd Jonathan Edward Pratt, Aelod o Gyngor Tref Porthcawl.

Y Cyngorydd Melanie Evans, Aelod o Gyngor Tref Pencoed, Llywodraethwr Cymunedol Ysgol Gyfun Pencoed ac Ysgol Gynradd Croesty.

Y Cyngorydd Paul Davies, Aelod o Gyngor Tref Maesteg, Llywodraethwr Ysgolion Cynradd Caerau a Nantyffyllon.

Y Cyngorydd Steven Bletsoe, Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Aelod o Gyngor Cymuned Coety Uchaf a Llywodraethwr Ysgol Penybont.

Y Cyngorydd Martyn Williams, Aelod o Gyngor Cymuned Coety Uchaf a Chyngor Cymuned y Santes Ffraid Leiaf.

**20. DYLETSWYDD, ASESIAD A CHYNLLUN GWEITHREDU DIGONOLRWYDD  
CYFLEOEDD CHWARAE I SICRHAU CYFLEOEDD DIGONOL YM MWRDEISTREF  
SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yr Adroddiad ac eglurodd bod yr hawl i chwarae yn hawl canolog i blant Cymru, nid i'r plant lleiaf yn unig ond drwodd hyd at 25 mlwydd oed. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu effaith pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo estynedig ar blant a phobl ifanc. Eglurodd,

yn ogystal â deall yr asesiad, ei bod hefyd yn bwysig nodi'r cynllun gweithredu a oedd ynghlwm a dull y Cyngor cyfan a phartneriaeth, oedd ei angen i gyflawni'r cynllun gweithredu hwnnw.

Rhoddodd Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles gyflwyniad ar yr asesiad drafft, gan egluro bod y drafft wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel yr oedd angen ym mis Mehefin, a bod y broses yn parhau drwy'r pwylgor craffu ac yn y pen draw i'r Cabinet i'w gymeradwyo. Cylch tair blynedd oedd hwn ond roedd cynllunio gweithredu blynyddol hefyd a chyfle i ymgysylltu ar y materion amrywiol drwy gydol y flwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Grŵp Atal a Lles am y cyflwyniad a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:

Cyfeiriodd Aelod at yr ymadrodd "Un Cyngor" a gofynnodd sut roedd hyn yn gweithio mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp ar gyfer Atal a Lles fod yna Ganllawiau Cenedlaethol ar sut y dylai hyn weithio, gydag arweinyddiaeth strategol drwy Aelod y Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol, Cyfarwyddwr Corfforaethol arweiniol a chefnogaeth gan Gyfarwyddiaethau y Cymunedau ac Addysg. Roedd y materion yn croesi drosodd a dylai'r holl bartneriaid perthnasol fod yn meddwl y tu hwnt i'w maes gwaith penodol hwy eu hunain a sut yr oedd yn rhngweithio a'r effaith o ran y Cyngor yn ehangach. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod hyn yn cael ei ddangos gan nifer Aelodau'r Cabinet, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Chynrychiolwyr oedd yn bresennol yn y cyfarfod a bod y partneriaid allweddol, Halo, Awen, BAVO ac ysgolion, i gyd yn allweddol i'r ddarpariaeth, yn unigol ac ar y cyd.

Gofynnodd y Cadeirydd am i ddolen gyswilt i'r Canllawiau Cenedlaethol gael ei chylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd Aelod at 4.3c yn yr adroddiad: "I roi sylw i blant a phobl ifanc ag anghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n byw gydag anableddau neu anghenion ychwanegol" a gofynnodd a oedd yr Awdurdod wedi bod yn ymgynghori â phobl anabl, plant, rhieni a gofalwyr ac wedi eu cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer gwella.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles fod ganddo ef blant ag anableddau a'i fod tan yn ddiweddar wedi bod yn Aelod o Fwrdd Anableddau Cymru, oedd yn rhedeg rhagleni pwrpasol a bod adborth o ddiwrnodau darganfod wedi dylanwadu ar y gweithgareddau a'r cyfleoedd. Fe wnaethant gynnal arolwg ymhlið tua 300 o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol fel rhan o arolwg mwy oedd wedi darparu data penodol. Roeddent wedi ceisio dal lleisiau pobl ifanc ag anableddau, heb i bobl siarad ar eu rhan.

Esboniodd yr Aelod fod ei gwestiwn ef yn ymwneud yn bennaf â meysydd chwarae yn cael cyfarpar hygyrch i blant mewn cadeiriau olwyn ac nad oedd un darn o offer maes chwarae oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn yn Wardiau Canolog Pen-y-bont ar Ogwr, oedd yn golygu bod y rhan hon o Ben-y-bont ar Ogwr heb unrhyw offer hygyrch i gadeiriau olwyn.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles mai un o'r heriau oedd wrth edrych ar y darlun ehangach, bod ychydig dros 40 o blant yn mynchy Heronsbridge mewn cadeiriau olwyn a bod gan yr ysgol honno siglen a chylchfan hygyrch i gadeiriau olwyn. Roedd ugain o blant ar draws y cynradd a'r uwchradd ond nid oedd yn gwybod pa nifer a allai drosglwyddo o'r gadair olwyn i'r offer. Roedd defnyddwyr cadeiriau olwyn yn cyfrif am un rhan, roedd yna hefyd 600 o bobl ifanc ag awtistaeth a 700 gyda phroblemau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol a'r rheiny â namau synhwyraidd.

Atebodd Aelod y Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol fod yn rhaid iddynt nid yn unig fod yn Un Cyngor, ond hefyd yn Un Fwrdeistref Sirol. Croesawai gyfranogiad yr holl Aelodau gan fod hon yn ddarpariaeth gynyddol ond roedd hefyd yn cydnabod y swm enfawr o ymgynghori oedd wedi cael ei gynnal eisoes.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau mai'r bwriad oedd y byddai gan bob Ward o leiaf un maes gydag offer chwarae hygrych ar draws y Fwrdeistref.

Cyfeiriodd Aelod at y goblygiadau ariannol yn yr adroddiad eglurhaol gan fod hwn yn ddarn o waith pellgyrhaeddol, cynhwysfawr a'i bod yn annerbyniol darllen bod y goblygiadau ariannol yn ansicr a gofynnodd am esboniad pellach.

Atebodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y bu buddsoddiad sylweddol mewn meysydd chwarae eisoes fel rhan o'r gyllideb ar gyfer eleni. Câi'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf ei gosod gan y Cyngor yn y flwyddyn newydd unwaith y byddai'r setliad wedi cael ei dderbyn a byddai angen i'r blaenoriaethau yn y cynllun hwn ynghyd â'r holl flaenoriaethau eraill ar draws y Cyngor fod wedi cael eu costio'n briodol a'u hystyried fel rhan o'r broses honno o osod y gyllideb. Byddai angen i waith y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol fynd i mewn i fanylion goblygiadau cyllidebol yr holl elfennau, ond roedd yn ddarlun symudol oherwydd bod yr arian yn dod drwedd mewn amrywiol ffyrdd.

Cyfeiriodd Aelod at sylw Aelod y Cabinet y dylid edrych arno fel un Fwrdeistref Sirol yn hytrach nag ardaloedd unigol a thynnodd sylw at y datganiad a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylai pobl gael mynediad at fannau gwyrdd o fewn 20 munud o gerdded o'u tŷ. Dywedodd os oeddent am greu amgylchedd carbon isel yna na allent ddisgwyl i'r rheiny ag anghenion ychwanegol deithio'n bell, ac felly bod yn rhaid iddynt weithredu fel Cynghorwyr Wardiau ac ymgrychu dros faterion lleol.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles y bu ansicrwydd erioed yn y maes hwn ond y bu buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau chwarae yn ddiweddar. Roeddent yn edrych ar sut i gyfuno adhoddau i gael y gwerth gorau ohonynt ac ar ffyrdd o ddod â phartneriaid i mewn. Roeddent wedi costio'r cynllun yn wreiddiol ond roedd ychydig o ansicrwydd ynglŷn â pheth o'r cyllid.

Eglurodd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau nad â chyfleusterau chwarae yn unig yr oedd hyn yn ymwneud ac, o ran mannau gwyrdd, bod yn rhaid iddynt sicrhau bod y rhain yn gwbl hygrych. Byddai hyn yn cymryd llai o adnoddau ac roedd yn cael ei anwybyddu'n aml.

Cyfeiriodd Aelod at flynyddoedd 2016 a 2019 ar dudalen 30 o'r adroddiad a gofynnodd a oedd y ffigurau hyn 3 blynedd allan o ddyddiad. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y ffigurau ar gyfer y cyfnod presennol a bod angen diweddaru'r dyddiadau.

Cyfeiriodd Aelod at yr asesiad o'r boblogaeth oedd yn seiliedig ar ddata yn 2019 a gofynnodd a oedd y data a ddisgwylid yn gynnar yn haf 2022 wedi dod i law? Atebodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles nad oeddent wedi diweddaru'r holl asesiadau o anghenion â'r data newydd ond ei bod yn ddogfen fyw, bod yr asesiad yn cael ei gynnal ar un pwynt mewn amser ac y byddai ymgysylltu'n parhau gan arwain at newidiadau yn y blaenoriaethau yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth newydd.

Gofynnodd Aelod a'i'r pandemig oedd yn gyfrifol am y ffaith fod nifer o'r dangosyddion wedi newid o wyrdd i ambr. Eglurodd Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles fod hwn yn gyfrannwr mawr. Roeddent wedi cynnal arolwg o 4,300 o bobl ac roedd yr effaith

negyddol yn bennaf o ganlyniad i newidiadau yn eu ffordd o fyw megis lefelau is o weithgarwch. Ychwanegodd fod yna bethau cyffredin ar draws y setiau data.

Ychwanegodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol nad Covid yn unig oedd yn effeithio ar gyflawni neu ymgysylltu, roedd yna hefyd lu o bethau newydd fel yr effaith ar iechyd meddwl a ffordd o fyw, a byddai gweithio gyda chymunedau i ailadeiladu hynny yn allweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Gofynnodd y Cadeirydd pa gamau oedd yn cael eu cymryd i gynyddu cyfranogiad. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod yr Haf o Hwyl yn fenter fawr ledled Cymru. Roedd y tîm yn gweithio gyda phartneriaid o amgylch y rhai mwyaf agored i niwed ar brosiectau fel y Ganolfan i Rai Agored i Niwed a Diwrnodau Darganfod gan ganolbwytio ar y plant yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig. Cafwyd problemau hefyd o ran sicrhau gweithlu i ddarparu'r rhagleni haf. Roedd amrywiaeth o becynnau pwrrpasol yn datblygu, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai plentyn, heb les da, yn llai tueddol o gymryd rhan mewn chwarae, chwaraeon, y celfyddydau neu beth bynnag.

Dyweddodd Aelod mai dim ond 5 Cyngor Tref a Chymuned oedd wedi ymateb ac mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd Mai 2022 sef mis yr etholiad. Os oedd ymatebion i'w derbyn erbyn dyddiad cau, yna dylai Swyddogion fod yn ymwybodol o amseriad y dyddiadau cau ar gyfer ymatebion.

Cyfeiriodd Aelod at gael gwared ar arwyddion 'dim gemau pêl' i annog mwy o blant i chwarae yn y gymuned. Eglurodd fod un o Landlordiaid Cymdeithasol yr ardal wedi ysgrifennu llythyrau at drigolion yn dweud wrhynt y byddent yn torri eu cytundebau tenantiaeth pe byddent yn caniatáu i'w plant chwarae yn y stryd. Roedd trigolion wedi codi hyn, roedd cyfarfod cyhoeddus wedi'i gynnal lle derbyniwyd nad oedd ganddynt hawl i wneud hynny. Yn y cyfarfod hwn esboniodd trigolion eu bod wedi bod yn disgwy bron i 5 mlynedd i barc chwarae gael ei ariannu o dan arian Adran 106, oedd eisoes wedi cael ei drosglwyddo i CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd Aelod Ward wedi bod yn gweithio i ddatrys y mater hwn ac wedi cael gwybod y gallai fod taliad uniongyrchol i'r Cyngor Cymuned i osod y parc, ond wedi derbyn cyngor gwahanol yn ddiweddarach. Gofynnodd sut y gallent ddyylanwadu ar ymddygiad anfuddiol gan y Cymdeithasau Tai a hefyd yng ngoleuni'r sgwrs am Un Cyngor, sut y gallent gydweithio i osod y parc.

Eglurodd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau ei fod wedi cyfarfod â Swyddogion yn ddiweddar a bod y maes chwarae hwnnw allan i dendr ar gyfer dylunio ac adeiladu. Dywedodd Aelod y Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol fod hyn yn ymwned â sut yr oedd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael eu dwyn i gyfrif fel sefydliadau yr oedd yn rhaid iddynt weithio gyda hwy, a chytunodd i godi'r mater gyda'r LCC ar y cyfle nesaf.

Cyfeiriodd Aelod at ddarparu mannau agored a gofynnodd a oedd dau faes chwarae yn cynnig darpariaeth ddigonol ar gyfer 5.5 mil o drigolion yn Ward Hengastell. Atebodd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau, fel yn y CDL1 diwygiedig, fod yr Archwiliad Chwarae a Gofod Awyr Agored yn nodi bod gan lawer o Wardiau ddiiffyg darpariaeth chwarae, a bod ymrwymiad i adnewyddu'r mannau presennol cyn creu rhai newydd.

Cyfeiriodd Aelod at faw cŵn a digwyddiadau diweddar yn ei Ward ac awgrymodd y gallai arwyddion yn nodi mannau chwarae annog perchnogion cŵn cyfrifol i gadw eu hanifeiliaid anwes i ffwrdd o'r mannau hynny gan eu gwneud yn fwy diogel i blant chwarae ynddynt. Cytunodd a chadarnhaodd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan ynghylch Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus fyddai'n ei gwneud yn bosibl mynd i'r afael â'r mater hwn.

Gofynnodd Aelod a oedd modd cynnig rhai camau cadarnhaol mewn perthynas ag C14 i'w dynnu allan o goch ac yn syth i wyrdd, yn hytrach na'r posibilwydd o ailedrych arno. Atebodd Aelod y Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol fod llawer o faterion yn cael eu codi mewn perthynas â chodi tai i safon ond byddai'n codi hyn gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac yn parhau i'w godi wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd Aelod at gost cyfleusterau ysgol ar gyfer chwaraeon ar lawr gwlad. Yn CCYD roedd 3 maes pob tywydd. Yn ddiweddar roedd gemau llawr gwlad wedi cael eu trefnu ond bu'n rhaid eu gohirio oherwydd bod y cae yn ddirlawn, ond nid oeddent yn gallu defnyddio'r caeau pob tywydd oherwydd ei fod yn rhy gostus, neu roedd canfyddiad y byddai'n rhy gostus. Roedd enghraift debyg yng Nghoety gydag ystafell gymunedol, nad oedd yn cael ei defnyddio'n aml gan y gymuned oherwydd cost ei defnyddio. Gofynnodd pam na allai'r cyfleusterau hyn fod ar gael yn haws. Atebodd Aelod y Cabinet dros Addysg fod y lleiniau hyn ar gyfer defnydd cymunedol. Câi'r ffloedd eu pennu gan Benaethiaid a Chyrrf Llywodraethol. Roedd yna ganllawiau ar beth oedd defnydd cymunedol ac roedd yn hapus i gydwethio ag ysgolion ar y mater hwn. Roedd hefyd yn dibynnu ar yr hyn yr oedd y clybiau yn fodlon ac yn gallu fforddio ei dalu. Roedd ysgolion wrth galon y gymuned a dylent fod at ddefnydd y gymuned a dylai'r pris adlewyrchu hynny tra hefyd yn ystyried adennill costau. Cytunodd Aelod y Cabinet dros Addysg i siarad â'r Aelod yn dilyn y cyfarfod i drafod y mater ymhellach.

Gofynnodd Aelod a oedd mecanwaith ar gyfer medru defnyddio cyfleusterau ar fyr rybudd. Atebodd Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles fod cyfuniad o drefniadau yn eu lle. Roedd galw mawr am y cyfleusterau hyn ac roedd cost eu gweithredu yn uchel.

Gofynnodd Aelod am bwynt F8 ar dudalen 72 yr adroddiad, "Mae gan yr Awdurdod Lleol ffordd hygyrch ac adnabyddus o drefnu cau ffyrdd dros dro, er mwyn galluogi mwy o blant i chwarae y tu allan i'w cartrefi". Dywedodd nad oedd y broses yn hysbys iawn a gofynnodd am ragor o wybodaeth. Cytunai Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles nad oedd yn adnabyddus iawn ac na ddylai fod yn ambr. Bu'r Aelodau yn trafod cost cau ffordd a gwirfoddolwyr i gefnogi'r cynllun a chytunodd Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles i edrych ar y mater hwn eto.

Teimlai Aelod fod diffyg cyfle i gael sgwrs agored uchelgeisiol rhwng y Cyngor Tref a Chymuned a'r Cyngor. Roedd Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles, y broses CAT a Chytundebau Adran 106 mewn gwahanol feisydd, ac felly nid oedd pethau'n gydgysylltiedig ac nid oedd yn bartneriaeth iawn. Atebodd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau fod angen iddynt wneud yn well o ran gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac y dylent weithio ar y maes hwnnw.

Gofynnodd Aelod sut y trefnwyd yr arolwg ar gyfer grwpiau oedran 0-3 oed a gynhaliwyd gydag ysgolion partner. Ychwanegodd y byddai mwy o ymgysylltu ar gyfer gweithgareddau i blant 0-3 oed yn ddefnyddiol. Cytunodd Rheolwr y Grŵp ar gyfer Atal a Lles i rannu'r wybodaeth oedd ganddo.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach ar gyfer y gwahoddedigion a diolchodd iddynt am eu presenoldeb a gadawsant y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Wrth geisio barn Cynghorau Tref a Chymuned, dylai Swyddogion fod yn ymwybodol o amseriad dyddiadau cau ymateb i arolygon, a cheisio osgoi

amseroedd traddodiadol brysur i Gynghorau, megis dechrau mis Mai, er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltu â phosibl. (CM/AT)

2. Dylid ystyried a ddylai fod mecanwaith yn ei le i alluogi clybiau/mudiadau i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol, megis meysydd chwaraeon, y tu allan i oriau arferol, pe bai'r tywydd yn eu hatal rhag defnyddio eu cyfleusterau arferol. (CM/AT)
3. Ystyried sut y gellid cryfhau'r bartneriaeth rhwng y Cynghorau Tref a Chymuned a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn sicrhau mwy o gydlyniant a pherthynas lai trafodaethol. (CM/AT)
4. Bod swyddogion yn myfyrio ar ba mor adnabyddus yw'r weithdrefn ar gyfer cau ffyrdd dros dro ac ystyried beth yw'r ffordd orau o hyrwyddo'r weithdrefn. (CM/AT).
5. Dylid ystyried ailedrych ar amcan codi arwyddion megis Arwyddion Blaenoried Chwarae ac archwilio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y posibilrwydd o gael gwared ar yr arwyddion Dim Gemau Pêl presennol lle bo'n briodol, er mwyn annog mwy o blant i chwarae y tu allan i'w cartrefi. (CM/AT)

Gwybodaeth ychwanegol:

Gwnaeth y Pwyllgor gais am:

6. Y Canllawiau Cenedlaethol ar ddull 'Un Cyngor' ac esboniad o beth yw proses a dyheadau 'Un Cyngor' mewn perthynas â'r adroddiad yn ogystal â sut mae'r model o arweinyddiaeth strategol o fewn y Canllawiau yn gweithredu. (CM/AT)
7. Cadarnhad o sut yr ymgysylltodd yr Awdurdod Lleol â safbwytiau plant 0-3 oed neu eu teuluoedd yn yr arolwg Lles Teuluoedd ar gyfer grwpiau oedran 0-3 oed a gynhalwyd gydag ysgolion partner. (CM/AT)

**21. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith amlinellol ddrafft arfaethedig i'r Pwyllgor, oedd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad i'w thrafod a'i hystyried. Câi blaenraglen waith y SOSC ei chynnwys yn yr adroddiad nesaf i COSC gydag unrhyw ddiweddaradau o bob cyfarfod wedi eu cynnwys.

Eglurodd y Swyddog Craffu fod y Daflen Weithredu Monitro'r Argymhellion ynghlwm fel Atodiad B i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor. Tynnodd sylw'r Aelodau at Atodiad A ac at ychwanegu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Drafft 2022/23 i 2025/26 a Chynigion y Gyllideb, oedd ar 23 Ionawr 2023. Dywedodd y câi'r Strategaeth Ddigartrefedd yn awr ei threfnu ar gyfer mis Ebrill a gyda chytundeb y Pwyllgor, byddai Strategaeth Di-Garbon Net Pen-y-bont ar Ogwr 2030, y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Ffrydiau Gwaith Gwasanaethau Gwastraff y Dyfodol yn cael eu trefnu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Eglurodd Aelod ei fod yn siomedig nad oeddent wedi gweld adroddiad Just Solutions i Barciau Mawr ar gyfer CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hwn wedi'i anelu at Gaeau Trecelyn, Parc Lles Maesteg ac Aberfields gan gynnwys Caeau Chwarae Waun Llwyd ac roedd yn gobeithio nad oedd unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwnnw a oedd yn gorgyffwrdd â phenderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod hwnnw. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd yr adroddiad ar gael eto ond y disgwylied ef yn fuan. Gofynnodd yr Aelod a ellid cynnwys yr adroddiad yn y Flaenraglen Waith.

Awgrymodd Rheolwr y Gwasanaethau Democratiaidd y gallent ystyried y manylion pan fyddai'r adroddiad wedi cael ei gyhoeddi a phenderfynu a ddylai ddod i gyfarfod yn y dyfodol i'w ystyried neu gael ei ddosbarthu fel eitem wybodaeth. Nid oedd yr un Swyddog wedi gweld yr adroddiad ond gellid ei gysylltu â Throsglwyddo Asedau Cymunedol ac os felly byddai'n fwy priodol cael eitem ar drosglwyddo asedau cymunedol yn gyffredinol. Gallent anfon yr adroddiad at Aelodau'r Pwyllgor gan wahodd sylwadau a phenderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

Cyfeiriodd aelod at dudalen 141, y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a gofynnodd a oedd unrhyw adborth wedi'i dderbyn gan Lywodraeth y DU, Dr Jamie Wallis neu Chris Elmore mewn perthynas â'r llythyr ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Atebodd y Swyddog Craffu nad oedd wedi gweld unrhyw beth ac y byddai'n mynd ar drywydd hynny.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith wrth gyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn dilyn y cylch nesaf o gyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc ac yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro'r Argymhellion yn Atodiad B.

22. **EITEMAU BRYS**

Dim.

This page is intentionally left blank

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD MERCHER, 4 IONAWR 2023**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN HYBRID  
IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB  
DYDD MERCHER, 4 IONAWR 2023, AM 16:00**

**Presennol**

Y Cyngorydd P Davies – Cadeirydd

S J Bletsoe	N Clarke	C Davies	P W Jenkins
MJ Kearn	W J Kendall	J E Pratt	G Walter
I Williams	MJ Williams		

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

M J Evans

**Swyddogion:**

Rachel Keepins	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Meryl Lawrence	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Jessica Mclellan	Swyddog Craffu
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

**24. DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Dim

**25. GALW PENDERFYNIAD Y CABINET I MEWN: STRATEGAETH CARBON SERO NET 2030 PEN-Y-BONT AR OGWR**

Cyflwynodd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Craffu yr adroddiad a'i bwrpas oedd galluogi'r Pwyllgor i graffu ar benderfyniad y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2022 mewn perthynas â'r adroddiad ar Strategaeth Garbon Sero Net 2030 Pen-y-bont ar Ogwr.

Dyweddodd, yn unol ag Adran 7.23 o Gyfansoddiad y Cyngor, fod tri Aelod o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac un Cadeirydd Craffu, wedi gofyn am Alw i Mewn y penderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2022.

Dyweddodd mai'r argymhelliaid oedd i'r Pwyllgor ystyried penderfyniad y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2022 ynghylch Strategaeth Garbon Sero Net 2030 Pen-y-bont ar Ogwr a phenderfynu a oedd yn dymuno:

- i) Cyfeirio'r penderfyniad yn ôl er mwyn i'r Cabinet ei ailystyried, gan nodi'n ysgrifenedig natur ei bryderon; ynteu
- ii) Penderfynu peidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau oedd wedi cefnogi Galw i Mewn i siarad am y rhesymau dros Alw i Mewn.

Dyweddodd yr Aelodau fod y prif resymau dros Alw i Mewn yn cynnwys:

- Diffygion yn y Strategaeth ac yn y cwestiynu gan y Cabinet wrth wneud y Penderfyniad.

## PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD MERCHER, 4 IONAWR 2023

- Nid oedd unrhyw wybodaeth na dealltwriaeth wirioneddol o effaith ariannol y penderfyniad polisi.
- Diffyg eglurder ynghylch y ffordd y cai perfformiad ei fonitro.
- A oedd y Strategaeth yn cael ei goruchwyliau a'i llywodraethu'n gywir ac a ddylai eistedd ar lefel uwch.
- Roedd diffyg eglurder ynghylch sut y byddai cyflawni'r Strategaeth yn cael ei ariannu.
- Pryder ynghylch y diffyg o 34,000 tunnell o ran cyrraedd y targed o garbon sero net, y gost a beth oedd yn cael ei wneud i liniaru hynny.

Fe wnaeth Arweinydd y Cyngor (yr Arweinydd):

- Dynnu sylw at bwysigrwydd pwnc y newid yn yr hinsawdd a'r angen i bawb chwarae rhan yn yr ymateb iddo.
- Dywedodd y byddai monitro'r targed a chyflawni'r Strategaeth yn digwydd drwy'r Cynllun Corfforaethol y creffir arno o leiaf bob chwarter drwy fframwaith y Perfformiad Corfforaethol
- Eglurodd y cai'r mesuriadau perfformiad o amgylch y cynllun sero net eu nodi a'u mesur ar lefel gorfforaethol ac y byddai cynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau hefyd yn cynnwys targedau a dangosyddion perfformiad perthnasol.
- Esboniodd y byddai'r Strategaeth yn eiddo i'r Cyngor llawn ar lefel uchaf y fframwaith cynllunio ar gyfer yr Awdurdod.
- Dywedodd eu bod wedi ymrwymo i adolygu'r strategaeth yn llawn yn 2024 a 2027 oherwydd bod y diwydiant datgarboneiddio ynghyd â thechnoleg yn newid ac y byddent yn croesawu mewnbwn craffu i'r adolygiad.
- Tynnodd sylw at ansefydlogrwydd costau a'r angen i addasu i newidiadau.
- Dywedodd ei fod yn agenda a rennir gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac roedd yn cydnabod y byddai rhai newidiadau yn ddrud, a bod angen cymorth ariannol sylweddol gan y llywodraeth ganolog.

Fe wnaeth Aelod y Cabinet dros y Cymunedau:

- Roi gwybod bod y Strategaeth yn ddogfen gorfforaethol ac er mai Cyfarwyddiaeth y Cymunedau oedd yn ei rheoli, cynhelid cyfarfodydd y Bwrdd Lleihau Carbon yn rheolaidd a mynchyd y rhain gan Swyddogion o bob Cyfarwyddiaeth ac, yn dilyn hynny, cai camau gweithredu eu cynnwys yn yr Asesiad Perfformiad Corfforaethol (CPA).
- Tynnodd sylw at yr anhawster o roi cost ar gyflawni'r Strategaeth, gan gynnwys y posiblwydd y byddai'r ffigwr yn anghywir, a'r adnoddau oedd eu hangen i gyrraedd ffigwr.
- Gyda golwg ar berfformiad, dywedodd fod 6 chynllun gweithredu yn y Strategaeth gyda swyddogion arweiniol wedi cael eu nodi ar gyfer pob thema.
- Dywedodd fod mwy o waith i'w wneud a phethau i'w dysgu er mwyn cyflawni carbon sero net mewn 7 mlynedd.

Fe wnaeth Pennaeth Gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymunedol y sylwadau canlynol:

- Cytunai y byddai costiadau fel rheol yn cyd-fynd â Strategaeth ond bod y Strategaeth hon yn un oedd yn newidiol, yn ddeinamig ac yn un oedd yn datblygu.
- Tynnodd sylw at ddatblygiad deinamig technoleg, anwadalrwydd cost adnewyddu offer, a'r ansicrwydd ynghylch cyllid grant.
- Dywedodd y byddai unrhyw gostiad yn amodol ar gynifer o newidynnau fel mai dim ond y 'dyfaliad gorau' fyddai hwnnw ac mai ar y dull gweithredu a'r mentrau unigol y dylid canolbwytio.

- Gyda golwg ar berfformiad a monitro, atgoffodd yr Aelodau fod y pwnc wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2021, lle cynhalwyd trafodaethau ynghylch dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a datblygu offeryn monitro blynnyddol, a bod llawer o'r hyn oedd yn y Strategaeth yn ffrwyth y drafodaeth Graffu honno.
- Tynnodd sylw at adrannau o'r adroddiad oedd yn dangos monitro perfformiad ac y byddai lefel y manylder y gofynnwyd amdano yn fwy priodol ar gyfer CPA, cyfarfodydd Craffu a chynllun cyflawni.
- O ran trosolwg a llywodraethu, amlygodd y daith y bu'r Strategaeth arni drwy amrywiol gyfarfodydd ac ymgynghoriad cyhoeddus a'r cyfleoedd i Aelodau fod yn rhan o ddatblygu'r Strategaeth cyn iddi gael ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2023.
- Dywedodd fod y Strategaeth yn cael ei rheoli gan Gyfarwyddiaeth y Cymunedau oherwydd mai o'r Gyfarwyddiaeth honno yr oedd wedi esblygu i raddau helaeth ond mai'r hyn oedd yn bwysig oedd iddi gael yr adnoddau oedd eu hangen i'w gyrru yn ei blaen.
- Pwysleisiodd mai i ddibenion enghreifftiol y bwriadwyd y siartiau llinellol yn yr adroddiad ac y byddent yn newid wrth i fentrau gael eu gweithredu.

Gwahoddodd y Cadeirydd unrhyw Aelodau eraill oedd wedi cefnogi Galw i Mewn i siarad ac yna gwahoddodd unrhyw Aelodau eraill o'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau neu roi sylwadau.

Mewn perthynas ag ymholiad gan Aelod ynghylch y gost o wrthbwys o'r carbon gweddilliol ac a fyddai'r gost yn cael ei lledaenu dros 7 mlynedd neu'n cael ei gwerthuso a'i thalu yn 2030, rhybuddiodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymunedol yn erbyn ceisio dyfalu cost elfennau unigol, gan y byddai gwahaniaethau cost gyda phob menter, a allai gulhau neu dyfu ac y gallai gynhyrchu ffigur hynod anghywir. O ran gwrthbwys, dywedodd fod angen ei ystyried cyn 2030 oherwydd y byddai gofyniad ac amserlen i gyflawni'r gwrthbwys.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau y gallai lefel y diffyg a ragwelid hefyd fod yn destun newid wrth i dechnoleg newid a thynnodd sylw at faint a manteision plannu coed.

Dywedodd yr Arweinydd y dylai'r Cyngor ystyried dewisiadau gwrthbwys carbon fel cyfleoedd a thynnodd sylw at bwysigrwydd yr adolygiad oherwydd y newid mewn technoleg a chostau oedd yn golygu ei bod yn fwy anodd rhagweld goblygiadau ariannol yn y dyfodol.

Er y gallai costau yn y dyfodol fod yn anodd eu cyfrifo ac y gallai technoleg newid, holodd Aelod pam na ellid cael rhyw sicrwydd ynghylch mentrau a chostau ar gyfer cyflawni'r gostyngiad dros y 12 i 18 mis nesaf.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau fod 6 chynllun gweithredu wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu gyda thargedau a dyddiadau penodol, y gellid mesur rhai ohonynt erbyn diwedd y flwyddyn.

Mewn ymateb i gwestiwn a fu unrhyw drafodaeth ynghylch y posibilrwydd i'r Strategaeth gael ei rheoli gan Gyfarwyddiaeth wahanol ac a oedd angen swydd ychwanegol yn y Cabinet ar ei chyfer, dywedodd yr Arweinydd, er ei bod wedi esblygu, fod llawer o'r meysydd yr oedd angen eu newid yn sylweddol o fewn Cyfarwyddiaeth y Cymunedau ac, felly, bod synergeddau a chysylltiadau naturiol gyda'r Gyfarwyddiaeth honno ond y byddai'n ofynnol i Swyddogion o bob rhan o'r Awdurdod gyfrannu iddi. Dywedodd nad

oedd bwriad i greu swydd arall yn y Cabinet a thynnodd sylw at ymrwymiad ac angerdd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.

Teimlai Aelod fod angen nodi cost dangosol ar gyfer y Strategaeth er mwyn hysbysu'r cyhoedd, a holodd pam nad oedd cyfeiriad yn y Strategaeth at warchod coed aeddfed, gan dynnu sylw at y ffaith eu bod yn dal mwy o garbon na choed oedd newydd gael eu plannu.

Dyweddodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymunedol y gallent roi rhai costau bras at ei gilydd ond, oherwydd yr ansefydlogrwydd, y gallai hynny gyfleo darlun camarweiniol a gwrygam a fyddai'n tynnu sylw oddi ar y Strategaeth ei hun.

Tynnodd Aelod y Cabinet dros y Cymunedau sylw at y gwaith oedd yn cael ei wneud i ofalu am goed aeddfed a chytunodd efallai y byddai angen diweddar u'r cynllun i adlewyrchu hynny.

Mewn ymateb i ymholiad pam roedd y Strategaeth yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt yn 2021 gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon ond nad oedd targedau ariannol na thargedau perfformiad, esboniodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymunedol y gwaith y comisiynwyd yr Ymddiriedolaeth Garbon i'w wneud, oedd wedi cael ei gyfleo i Bwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2021, a dywedodd na fyddai ef ond yn ailadrodd ei bwytiau cynharach ynghylch cost.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y cyllid ar gyfer y Strategaeth, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymunedol fod yna gynnig twf refeniw pwysau cyllidebol o £883,000 i'w ystyried y flwyddyn nesaf neu byddai cyllid yn dod o'r gyllideb refeniw a fyddai'n creu ei bwysau cyllidebol ei hun.

O ystyried a fyddai'r pwysau ar y gyllideb yn golygu toriad i wasanaethau neu gynnydd yn Nhreth y Cyngor, dywedodd yr Arweinydd fod rhestr hir o gynigion cryf iawn ar gyfer twf cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w hystyried fel rhan o broses gosod y gyllideb, ond tynnodd sylw at yr angen i gyfyngu ar dwf er mwyn cadw unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor mor isel â phosibl.

Mewn ymateb i bryder gan Aelod fod Cyngor Dinas Abertawe wedi rhoi cost ar eu Strategaeth tra nad oedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud hynny, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymunedol, er y gallent gynhyrchu ffigw a'i gyhoeddi, y byddai'n destun cymaint o amrywiadau oherwydd bod costau mor gyfnewidiol a thechnoleg yn newid fel y byddai wedi dyddio bron yn syth.

Mewn ymateb i gwestiwn a fyddai cosb ariannol am fethu â chyrraedd carbon sero net, dywedodd nad oedd yn statudol ar hyn o bryd ac felly nad oedd targedau na dirwyon. Fodd bynnag, tynnodd sylw at Strategaethau a thargedau blaenorol Llywodraeth Cymru, oedd wedi dilyn llwybr o gyflwyno targed uchelgeisiol, gydag arian grant yn dilyn i gefnogi cyflawni'r targed, ac wedyn cyflwyno dirwy am beidio â chyrraedd y targed.

Dyweddodd yr Arweinydd fod gan y cyhoedd fwy o ddiddordeb yn y camau oedd yn cael eu cymryd a'r hyn oedd yn cael ei gyflawni yn hytrach na chynhyrchu ffigur, a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd y ffigur a gynhyrchwyd gan Gyngor Dinas Abertawe yn ffigur cyflawn gan nad oedd yn cynnwys eu hymrwymiad i ddatgarboneiddio tai. Parhaodd drwy ddweud y byddent yn ystyried sut orau i gyfleo crynodeb o'r cynlluniau gweithredu a'r cyfnodau amser i'r cyhoedd ac i'r Aelodau.

Mewn ymateb i ymholiad a oedd angen astudiaeth o gymhlethdod a chost lleihau allyriadau carbon a'r angen am Strategaeth o'r fath oedd yn edrych i'r dyfodol, tynnodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol sylw at y ffaith fod y

Cenhedloedd Unedig, Llywodraeth y DU a'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac mai bwriad y Strategaeth oedd mynd i'r afael â hynny.

Gofynnodd Aelod a ddylai adroddiadau'r Cyngor gynnwys mesur cost carbon a dywedodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymunedol fod hyn wedi bod yn argymhelliaid gan y Pwyllgor Craffu nad oedd wedi cael ei weithredu eto, ond cytunai y dylid ei gynnwys mewn templedi adroddiadau safonol.

Dyweddodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol fod yna ymrwymiad i adolygu'r templed corfforaethol i alinio â dyletswyddau'r Cyngor a'r Amcanion Corfforaethol newydd, unwaith y byddent wedi cael eu mabwysiadu. Y gobaith oedd cynnwys crynodeb gweithredol hefyd.

Dyweddodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig cynnwys ystyriaeth garbon yn y templed gan y byddai'n effeithio ar bob penderfyniad a wneid ac awgrymodd y gellid ei gynnwys gyda'r pennawd yn y templed ynghylch goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dyweddodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor oedd wedi bod eisiau gofyn cwestiynau i gyd wedi siarad, ac felly, gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddledigion, diolchodd iddynt am fod yn bresennol a gadawsant hwythau'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor, wedi ystyried a oeddent yn fodlon ar yr atebion, i ddweud a oeddent yn dymuno:

- a) Cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried, gan nodi'r rhesymau a'r rhesymeg dros y cais; ynteu
- b) Penderfynu peidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.

Bu Aelodau'r Pwyllgor yn trafod y canlynol:

Ystyria'i'r Aelodau y dylid priodoli rhyw fath o gost gredadwy i strategaeth mor bwysig. Cydnabuwyd y dylid cael ffordd o gyfleo costau dangosol na fyddai'n rhy annibynadwy nac yn rhy gamarweiniol yn hytrach na pheidio â darparu costau o gwbl. Trafodwyd sut y byddai costau ar gyfer y strategaeth lawn yn esblygu dros amser.

Cyfeiriwyd at y cerrig milltir allweddol a nodwyd i'w cyflawni erbyn 2024 ym 'Map y Llwybr i Ben-y-bont ar Ogwr Sero Net', oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'r Strategaeth, a dywedwyd y gallai'r Cabinet ystyried sut y gellid cymhwys o'r costau gorau i'r camau arfaethedig hyn er mwyn sicrhau'r arbedion carbon sylweddol a nodwyd.

Nododd yr aelodau y byddai trigolion yn pryderu am gost eu treth gyngor a'r effaith ar wasanaethau'r cyngor o ystyried y pwysau cyllidebol sylweddol a ddisgwylid yn y blynnyddoedd i ddod ac roeddent o'r farn y dylid cyhoeddi goblygiadau ariannol tymor byr a thymor hir y strategaeth i'r cyhoedd er mwyn rhoi gwybod i drigolion lle byddai eu harian yn cael ei ddefnyddio.

**PENDERFYNWYD:**

Yn dilyn ei archwiliad o'r penderfyniad, ac wedi ystyried yr uchod, penderfynodd y Pwyllgor argymhell cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried am y rheswm canlynol:

Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg gwybodaeth am gostau yn adroddiad gwreiddiol y Cabinet a theimlai'r Aelodau fod angen i'r Cabinet ystyried y costau ariannol ehangach cyn gwneud y penderfyniad, gyda goblygiadau

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD MERCHER, 4 IONAWR 2023**

ariannol tymor hir dangosol a mwy o fanylion am gostau cyflawni cerrig milltir 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:55

## PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 23 IONAWR 2023

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR  
Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31  
4WB DYDD LLUN, 23 IONAWR 2023, AM 16:00

### Presennol

Y Cyngorydd – Cadeirydd

S J Bletsoe	N Clarke
P W Jenkins	MJ Kearn
G Walter	MJ Williams

C Davies
W J Kendall

M J Evans
J E Pratt

### Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies a/ac I Williams

### Swyddogion:

Victoria Adams	Rheolwr Cyllid Dros Dro – Rheoli Cyllideb: Cymunedau, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Lucy Beard	Swyddog Craffu
Rachel Keepins	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Meryl Lawrence	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Jessica Mclellan	Swyddog Craffu
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Mark Shephard	Prif Weithredwr

### 27. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd y Cyngorydd Jonathan Pratt fuddiant personol gan fod ei wraig yn athrawes yn cael ei chyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac fel Aelod o dîm Chwilio ac Achub Gwylwyr y Glannau Ei Fawrhydi ym Mhorthcawl.

Datganodd y Cyngorydd Norah Clarke fuddiant personol fel gwirfoddolwr i RNLI Porthcawl ac Aelod o Glwb Achubwyr Bywyd Rest Bay, a bod ei mab yn Aelod o griw yr RNLI ac yn Aelod o Glwb Achubwyr Bywyd Rest Bay .

Datganodd y Cyngorydd Melanie Evans fuddiant personol fel Aelod o Gyngor Tref Pencoed.

Datganodd y Cyngorydd Martin Williams fuddiant personol fel Aelod o Gyngor Cymuned Coety Uchaf.

### 28. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023-24 I 2026-27

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid grynodeb o'r adroddiad, a'i bwrpas oedd cyflwyno i'r Pwyllgor y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddrafft (SATC) 2023-24 i 2026-27, oedd yn egluro blaenoriaethau gwariant y Cyngor, yr amcanion buddsoddi allweddol a'r meysydd o'r gyllideb oedd wedi cael eu targedu ar gyfer arbedion angenheidol. Roedd y strategaeth yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2023-2027 a chyllideb refeniw ddrafft fanwl ar gyfer 2023-24.

Diolchodd y Cadeirydd i Brif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid a gwahoddodd gwestiynau.

Roedd yr aelodau'n cwestiynu a fyddai modelau cyflawni yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf ac, yn ychwanegol at Drosglwyddo Asedau Cymunedol (CATS) a Bargen y Ddinas, roeddent yn gofyn sut roedd y Gyfarwyddiaeth yn bwriadu datblygu modelau cyflawni gwahanol a gyda phwy. Dywedodd y Swyddogion nad oedd unrhyw beth ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod, ond nad oedd hynny'n golygu na fyddent yn edrych ar rai eraill yn y dyfodol. Bu'r aelodau'n trafod modelau cyflawni gwahanol, yn neilltuol partneru â Chynghorau Tref a Chymuned (CTCh) a datganoli mwy o wasanaethau iddynt. Cytunai'r Swyddogion y byddent yn hapus i gael deialog agored a dywedasant fod disgrifiad swydd Swyddog CAT, sy'n cynlltu â Chynghorau Tref a Chymuned, wedi cael ei ehangu i gynnwys y math yma o drafodaethau, a châi barn gorfforaethol ar bolisi ei chyfleu i'r Cyngor llawn/Aelodau'r Cabinet.

